Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

2015/16

Yn eich cefnogi chi a'ch penderfyniadau

gov.uk/opg

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

2015/16

Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 60 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005

Cyfrifon a gyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Arglwyddi ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorchmynnwyd iddynt gael eu hargraffu gan Dŷ'r Cyffredin 7 Gorffennaf 2016

HC 308

**©Hawlfraint y Goron 2016**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3** neu anfonwch lythyr i: Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch ebost i: **psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.**

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint sy'n gysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **www.gov.uk/government/publications**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn

**customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk**

ISBN Argraffu 9781474135214

ISBN y We 9781474135221

ID 28061611 07/16

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibrau wedi'u hailgylchu.

Wedi'i argraffu yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


**Rhagair** 3

**Adroddiad perfformiad** 7

Cyflwyniad 7

Blaenoriaethau ac amcanion busnes 2015/16 8

Diogelu rhai sy'n agored i niwed 13

Cyfreithiol 20

Adroddiad cynaliadwyedd 21

**Adroddiad atebolrwydd** 24

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol 24

- Adroddiad y Cyfarwyddwyr 24
- Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 26
- Datganiad Llywodraethu 27

Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff 43

Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio 53

- Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Senedd 55

**Datganiadau ariannol** 57

**Nodiadau i'r cyfrifon** 61

**Atodiadau** 79

Cofnod ariannol pum mlynedd 79

# Rhagair

Wrth gloi un flwyddyn fusnes a pharatoi ar gyfer y nesaf, rwy'n falch o weld bod Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) yn 2015/16 wedi llwyddo i sicrhau'r perfformiad gorau ers sefydlu'r asiantaeth yn 2007.

Yn ystod y flwyddyn ddiweddaf llwyddasom i gyrraedd bron bob un o'n targedau perfformiad, a rhagori ar ambell un, mewn cyfnod o newid mawr. Gwelwyd cynnydd cyson yn y galw am bob un o'n gwasanaethau, a wynebwyd nifer o heriau ariannol ar draws y llywodraeth.

Ein nod eleni oedd cynnig lefel uchel o wasanaeth i'n defnyddwyr a gweithredu ein rhaglen drawsnewid. Mae ein llwyddiannau'n cynnwys:

- cyflwyno dulliau newydd, symlach o wneud a chofrestru atwrneiaethau arhosol
- treialu ein gwasanaeth digidol newydd ar gyfer dirprwyon a gosod fersiwn fyw ar GOV.UK
- newid ein system rheoli achosion atwrneiaethau arhosol; y system rheoli achosion gyntaf yn y llywodraeth a ddatblygwyd gan ddefnyddio egwyddorion Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth
- dirprwyon yn cael dull gweithredu newydd wedi'i lunio'n benodol ar eu cyfer, sy'n arwain at well gwasanaeth gennym ni; drwy gael gwell trosolwg o bob achos, gallwn gymryd camau ar unwaith mewn achosion lle gallai pobl sy'n agored i niwed fod mewn perygl o gael eu cam-drin
- gweithredu system ariannol newydd, fwy modern, sy'n cyflwyno dull gweithredu newydd ar gyfer cyfathrebu digidol a symud ein staff yn Nottingham i swyddfeydd newydd.

Gallwn ymfalchïo yn y llwyddiannau hyn ond mae llawer o waith i'w wneud eto.

Wrth i ni symud ymlaen i 2016/17, byddwn yn dal i roi lle canolog i anghenion ein defnyddwyr, beth bynnag y byddwn yn ei wneud. Byddwn yn gweithio tuag at ein gweledigaeth hirdymor, sydd wedi'i hamlinellu yn ein strategaeth, ac yn cymryd rhagor o gamau er mwyn cael cydnabyddiaeth am ein rhagoriaeth a'n harloesedd.

Yn bwysicach na dim, byddwn yn sicrhau bod gennym y sgiliau, y bobl a'r systemau er mwyn cefnogi ac amddiffyn oedolion mewn perygl a allai fod â llai o alluedd meddyliol.

Hoffwn ddiolch i holl staff OPG am eu gwaith caled bob amser, i aelodau ein bwrdd am eu cefnogaeth ac i'r sefydliadau sy'n bartneriaid i ni am eu cefnogaeth barhaus wrth helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o rôl dirprwyon ac atwrneiod.



**Alan Eccles CBE**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

30 Mehefin 2016

Ar 31 Mawrth 2016 roeddem yn goruchwylio **57,122 o orchmynion dirprwyaeth, cynnydd o 8%** oddi ar ddiwedd 2014/15.

Nifer y ceisiadau i gofrestru LPA ac EPA a dderbyniwyd yn **2015/16** oedd

**547,021**

Mae hyn yn gynnydd o **34%** oddi ar y flwyddyn flaenorol.

Erbyn diwedd y flwyddyn roedd gennym

**1,870,393**

o offerynnau cyfredol ar y gofrestr.

## O ystyried y cefndir hwn roedd ein perfformiad fel a ganlyn:

**nod 40 niwrnod**
Amseroedd clirio cyfartalog ar gyfer atwrneiaethau
**39 diwrnod**

**nod 5 niwrnod**
Amser cyfartalog ar gyfer chwiliadau'r gofrestr
**5 diwrnod**

**nod 85%**
Cyswllt cyntaf â dirprwy
**95%**

**nod 40 niwrnod**
Amser cyfartalog i gael adroddiad blynyddol
**41 diwrnod**

**nod 15 niwrnod**
Amser cyfartalog ar gyfer adolygu'r adroddiad blynyddol
**8 diwrnod**

**nod 45 niwrnod**
Amser cyfartalog i roi camau gweithredu sy'n eiddo i OPG ar waith
**28 diwrnod**

**nod 95%**
Canran yr asesiadau risg mewn 2 ddiwrnod
**95%**

**nod 100%**
Adolygiadau proffesiynol ac adolygiadau awdurdodau cyhoeddus
**102%**

**nod 70 niwrnod**
Amser cyfartalog i gwblhau ymchwiliadau
**69 diwrnod**

# Adroddiad perfformiad

## Cyflwyniad

Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cael ei benodi gan yr Arglwydd Ganghellor o dan Adran 57 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG), mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn bersonol atebol i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder am weithredu'r asiantaeth yn effeithiol, gan gynnwys y ffordd y mae'r asiantaeth yn gwario arian cyhoeddus ac yn rheoli ei hasedau.

Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cael cymorth gan OPG i gyflawni ei swyddogaethau statudol dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Mae cyfrifoldebau'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cwmpasu Cymru a Lloegr (mae trefniadau ar wahân ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon).

### Beth yw gwaith OPG?

Sefydlwyd OPG yn Hydref 2007 ac mae'n asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Ei chylch gwaith yw cynorthwyo a galluogi pobl i gynllunio ymlaen ar gyfer gofalu am eu hiechyd a'u materion ariannol os byddant yn colli galluedd yn y dyfodol, a diogelu buddiannau pobl a all fod heb alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hunain.

Swyddogaethau craidd OPG yw:

- rcofrestru atwrneiaethau arhosol (LPA) ac atwrneiaethau parhaus (EPA) hŷn
- goruchwylio dirprwyon a benodwyd gan y Llys Gwarchod
- cadw'r cofrestrau o ddirprwyon, LPA ac EPA ac ymateb i geisiadau am chwilio'r cofrestrau)
- ymchwilio i gwynion, neu honiadau am gam-drin, sydd wedi'u gwneud yn erbyn dirprwyon neu atwrneiod sy'n gweithredu o dan bwerau a gofrestrwyd.

### Ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid

Mae OPG yn gwasanaethu nifer o fathau o gwsmeriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys:

- rhoddwyr – pobl sydd wedi gwneud LPA neu EPA i warchod eu lles neu faterion ariannol os byddant yn golli galluedd yn y dyfodol
- atwrneiod – pobl sydd wedi'u penodi gan roddwyr i reoli eu lles neu faterion ariannol os byddant yn colli galluedd yn y dyfodol
- cleientiaid (a elwir yn 'P') – pobl sydd wedi colli galluedd ac y mae eu lles neu faterion ariannol yn destun achos sydd gerbron y Llys Gwarchod
- dirprwyon – unigolion lleyg neu broffesiynol neu awdurdodau (fel cyfreithwyr neu awdurdodau lleol) sydd wedi'u penodi gan y llys i reoli lles neu faterion ariannol cleient
- rhanddeiliaid eraill – perthnasau i gleient neu roddwr, awdurdodau lleol, meddygon teulu neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill, elusennau a'r sector cyfreithiol.

### Y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Mae OPG yn asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Gweinidogion y Llywodraeth sy'n gyfrifol am OPG yw:

- Y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
- Caroline Dinenage AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder Teuluol.

Fel asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, ochr yn ochr â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (GLITEM), Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS), yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) a'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA), mae ein nodau yn unol â chynllun adrannol unigol y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Rydym yn gweithredu er mwyn sicrhau'r gwasanaeth gorau posibl i ddinasyddion drwy weithio i wneud ein gwasanaethau'n effeithlon ac yn fwy agored, drwy bolisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

## Blaenoriaethau ac amcanion busnes 2015/16

Nodir y prif risgiau a'r materion a reolwyd drwy gydol y flwyddyn yn y datganiad llywodraethu ar dudalen 78.

### Ffurflenni a cheisiadau am atwrneiaethau

Roedd y cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau am LPA a welwyd yn 2014/15 i'w weld hefyd yn 2015/16. Eleni derbyniasom dros 530,000 o geisiadau i gofrestru LPA. Gwelsom hefyd ostyngiad bach unwaith eto yn nifer yr EPA a gofrestrwyd.

| Ceisiadau am atwrneiaeth | 2014/15 | 2015/16 | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| EPAs | 14,970 | 13,792 | -7.87% |
| LPAs | 394,079 | 533,229 | 35.31% |
| **Cyfanswm yr atwrneiaethau** | **409,049** | **547,021** | **33.73%** |

Gwyddom fod ein cwsmeriaid yn aml yn gwneud cais am gofrestru ar adeg o argyfwng. Maent yn gwbl briodol yn disgwyl i ni ddychwelyd dogfennau cofrestru pan fyddwn yn dweud y byddwn yn gwneud hynny, er mwyn iddynt allu eu defnyddio.

Hon yw'r flwyddyn gyntaf i ni gyrraedd ein targed ar gyfer gwasanaeth i gwsmeriaid, o ddechrau'r broses i'w diwedd, o amser clirio gwirioneddol cyfartalog (ACGC) o 40 niwrnod neu lai. Llwyddasom i wneud hyn mewn cyfnod pan gododd nifer y ceisiadau am atwrneiaethau roeddem yn eu derbyn mewn mis o 44,106 yn Ebrill 2015 i 54,757 ym Mawrth 2016. Roedd ein llwyddiant yn ganlyniad i ragfynegi llwyth gwaith a chynllunio gweithlu effeithiol ynghyd â rhaglen gwelliant parhaus effeithiol.

Cafodd ein ACGC gryn dipyn o her yn gynnar yn 2016. Roedd hyn yn rhannol oherwydd newidiadau yn ymwneud ag adeiladau yn Birmingham a Nottingham yn ystod 2015. Disgwyliwn y bydd buddion parhaus yn deillio o welliannau TG yn dechrau dod i'r amlwg yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf, a dylai hynny ddod â pherfformiad ACGC o fewn y targed yn braf.

Ym mis Gorffennaf, cyflwynasom ffurflenni LPA newydd, symlach a chliriach, ar gyfer LPA eiddo a materion ariannol ac ar gyfer LPA iechyd a lles. Mae'r ffurflenni newydd yn adlewyrchu'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad 2013 a'r adborth gan ddefnyddwyr a fu'n ymwneud yn uniongyrchol â'u datblygu. Penderfynwyd dileu'r angen am ail ddarparwr tystysgrif, gan fod hyn yn achosi anhawster i rai pobl oedd eisiau gwneud LPA. Mae'r mesurau diogelu eraill i gyd yr un fath.

| Dangosydd effaith: Atwrneiaeth | | | |
|---|---|---|---|
| Rhaid cofrestru EPA pan fydd y rhoddwr yn colli galluedd. Er bod yr LPA yn debyg mewn egwyddor, mae'n ofynnol i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus chwarae rhan fwy gweithredol yn y broses hysbysu ar ei chyfer. Mae cyfnod aros statudol o 20 niwrnod ar gyfer cofrestru LPA, wedi i'r OPG anfon hysbysiad at y parti neu bartïon nad oedd wedi gwneud y cais. | | | |
| **Pwrpas** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell data** | **Cyflawnwyd hyd 31 Mawrth 2016** |
| Mae'r dangosydd hwn yn cyfrifo nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gymerir i gofrestru ac anfon pob atwrneiaeth mewn cyfnod adrodd penodol.<br><br>Dyma'r amser a gymerir rhwng dyddiad y cais a'r dyddiad anfon. | O'r holl atwrneiaethau sydd â dyddiad anfon o fewn cyfnod adrodd, mae nifer y diwrnodau gwaith (heb gynnwys gwyliau banc a phenwythnosau) rhwng y 'dyddiad anfon' a'r 'dyddiad derbyn' yn cael eu hadio at ei gilydd a'u rhannu â nifer y ceisiadau i roi cyfartaledd.<br><br>Y 'dyddiad derbyn' yw dyddiad talu'r ffi neu, fel arall, dyddiad penderfyniad i ganiatáu cais am esemptio/peidio â chodi ffi. Ar y pwynt hwn, mae OPG yn dechrau prosesu'r cais.<br><br>Y 'dyddiad anfon' yw'r dyddiad y mae'r atwrneiaeth a gofrestrwyd yn cael ei hanfon, sef rhan olaf y broses ymgeisio sydd wedyn yn dangos bod cais wedi'i gofrestru yn ein systemau rheoli achosion mewnol | Systemau rheoli achosion mewnol OPG. | ACGC o 39 diwrnod gwaith o'i gymharu â tharged o 40 niwrnod gwaith. |

## Y Gofrestr

Eleni derbyniasom 30,323 o geisiadau i chwilio'n cofrestr atwrneiaethau a dirprwyaethau.

| Dangosydd Effaith: Chwilio'r Gofrestr | | | |
|---|---|---|---|
| Yr amser cyfartalog ar gyfer clirio chwiliadau Haen 1 yw 5 niwrnod gwaith | | | |
| **Pwrpas** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell data** | **Cyflawnwyd hyd 31 Mawrth 2016** |
| Mae gan OPG ddyletswydd statudol i gadw cofrestr o atwrneiaethau a dirprwyaethau.<br><br>Mae'r dangosydd hwn yn mesur dyletswydd statudol OPG i gadw'r gofrestr yn amserol. | Nifer y diwrnodau gwaith i wneud ceisiadau am chwiliadau a gwblhawyd o fewn y mis wedi'i rannu â chyfanswm y ceisiadau a gwblhawyd o fewn y mis. | Data'r Tîm Cefnogi Gwaith Achos. | Amser clirio cyfartalog o 5 niwrnod gwaith. |

## Digidol

Parhaodd ein siwrnai i fod yn asiantaeth gwbl ddigidol eleni.

Cyflwynasom system reoli achosion newydd ar gyfer yr holl geisiadau LPA. Y system hon, y cyfeirir ati'n fewnol fel Sirius, yw'r system reoli achosion gyntaf yn y llywodraeth sydd wedi cael ei datblygu gan ddefnyddio egwyddorion Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth; mae'n system ffynhonnell agored â chod safon agored, sy'n defnyddio cwmwl ac yn cael ei chynnal a'i chadw gan dimau yn OPG. Mae eisoes yn caniatáu i ni weithio'n gyflymach ac yn fwy hyblyg. Aeth ein system sganio newydd ar gyfer ceisiadau LPA yn fyw eleni hefyd, ac erbyn hyn mae'n derbyn dros 2,500 o geisiadau y diwrnod.

Mae'r gwasanaeth ar-lein newydd, 'Cwblhau'r Adroddiad Dirprwy', yn rhan bwysig o fodel cyflawni newydd OPG ar gyfer goruchwylio yn ôl y math o ddirprwy (lleyg, proffesiynol ac awdurdod cyhoeddus). Cafodd ei brofi'n fyw gyda dirprwyon yn Awst 2015 a Mawrth 2016 a'i roi ar GOV.UK. Gall pob dirprwy lleyg sydd â dirprwyaethau eiddo a materion ariannol ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein hwn nawr i gyflwyno ei adroddiad blynyddol i OPG.

Mae ein gwasanaeth LPA ar-lein – gwasanaeth a gyflwynwyd ym Mai 2014, a'r gwasanaeth cyntaf yn y llywodraeth i gyrraedd y safon Gwasanaeth Digidol yn Bennaf – yn dal i gael ei ddatblygu a'i wella ar sail adborth gan ddefnyddwyr. Yng Ngorffennaf 2015, addaswyd y system er mwyn i bobl allu defnyddio'r ffurflenni LPA newydd. O'r rhai a wnaeth gais i gofrestru LPA eleni, roedd dros 26% ohonynt wedi gwneud hynny gan ddefnyddio'r gwasanaeth digidol LPA ar-lein. Mae'r gwasanaeth hwn wedi cael sgôr gyson o ran bodlonrwydd defnyddwyr, â 93% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r gwasanaeth.

| **Dangosydd gwasanaeth i gwsmeriaid: Arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid digidol OPG** | | | |
|---|---|---|---|
| Y ganran darged ar gyfer cwsmeriaid sy'n 'fodlon iawn' neu'n 'weddol fodlon' â gwasanaethau digidol OPG yw 80% | | | |
| **Pwrpas** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell data** | **Cyflawniad hyd 31 Mawrth 2016** |
| Mae'r dangosydd effaith hwn yn helpu i sicrhau ein bod yn datblygu ein gwasanaethau digidol i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid. | Nifer y cwsmeriaid sy'n 'fodlon iawn' neu'n 'weddol fodlon' â gwasanaethau digidol wedi'i rannu â nifer yr ymatebion arolwg a dderbyniwyd a oedd yn ateb y cwestiwn hwn. | Arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid â'r ffurflenni LPA digidol. | Roedd sgôr yr arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid ar ddiwedd y flwyddyn yn 93%. |

Rydym wedi dal i weithio gyda'n cydweithwyr polisi yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder er mwyn symud ymlaen â gwaith ar LPA gwbl ddigidol heb fod angen llofnodion gwlyb. Buom yn ymgynghori â'n rhanddeiliaid a'n partneriaid a byddwn yn dal i weithio gyda hwy er mwyn cynllunio unrhyw system o'r fath. Rydym yn dal yn ddibynnol ar newid yn y ddeddfwriaeth er mwyn gallu cyflwyno LPA gwbl ddigidol.

Cyflwynasom strategaeth gyfathrebu digidol gyntaf erioed OPG er mwyn hysbysu ac ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd. Mae ei nodau'n cynnwys y canlynol:

- helpu pobl i ddeall manteision LPA a'u hannog i ystyried gwneud un
- helpu pobl i ddeall rôl ddiogelu OPG – beth y gallwn ei wneud a beth na allwn ei wneud – a chefnogi a hyrwyddo arferion diogelu sy'n lleihau'r risg o gam-drin
- rhannu ac ymgynghori â phartneriaid allweddol a chanolwyr ynglŷn â'n gwasanaethau a gwelliannau i'n gwasanaethau.

Cyflwynasom hefyd sianeli cyfryngau cymdeithasol newydd ar gyfer OPG, yn cynnwys cyfrif Twitter swyddogol, blog a sianel YouTube. Mae ein sianeli cyfryngau cymdeithasol newydd yn helpu i gefnogi'r sail dystiolaeth ar y rhwystrau a'r galluogwyr a fydd yn ein helpu i sicrhau bod ein gwasanaethau'n cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl. Bydd sianeli cyfathrebu digidol newydd yn cael eu datblygu yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Daliasom i ddatblygu ein presenoldeb ar GOV.UK er mwyn diwallu anghenion ein defnyddwyr a gwneud rhyngweithio â ni mor hawdd ag sy'n bosibl. Eleni rydym wedi cyhoeddi dros 90 o ddogfennau newydd, yn cynnwys canllawiau newydd ar gyfer atwrneiod a dirprwyon i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau.

Eleni newidiasom ein system gyfrifyddu ariannol am lwyfan newydd mwy modern. Llwyddasom i symud ein holl ddata a phrosesau cyfrifyddu cyfredol i'r system newydd heb amharu'n ormodol ar ein cwsmeriaid. Mae'r system newydd hon yn darparu system adnoddau dynol a chyllid gydgysylltiedig i ni, yn unol â gweddill y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

## Rheoli newid

Rydym wedi cyfuno ein sgiliau prosiectau, rhaglenni a gwelliant parhaus i greu un swyddogaeth rheoli newid. Rydym hefyd wedi cynllunio a gweithredu fframwaith rheoli newid a phortffolio newydd yn seiliedig ar arferion gorau Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth; bydd hyn yn creu model cyflawni ystwyth yn unol â'n nod o fod yn asiantaeth gwbl ddigidol.

## Partneriaethau, polisi ac ymchwil

Rhan bwysig o'n gwaith yw helpu i sicrhau bod atwrneiod a dirprwyon yn dilyn egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Eleni gwnaethom gyfraniad sylweddol i Grŵp Gweithredu trawslywodraethol y Ddeddf Galluedd Meddyliol a buom yn gweithio mewn cysylltiad agos ag arweinydd y fforwm cenedlaethol newydd ar gyfer galluedd meddyliol, y Farwnes Finlay.

Rydym hefyd wedi cefnogi nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus yn y 12 mis diwethaf, gan gynnwys Cylch Trafod Diogelu cyntaf erioed yr OPG yng Nghymru. Mae hyn wedi dod â ni'n llawer agosach at yr agenda yng Nghymru ac wedi agor drysau eraill, er enghraifft gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Rydym hefyd wedi sicrhau bod OPG yn dal i gyflawni ei ddyletswyddau deddfwriaethol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

Mae ein gwaith gyda'r diwydiant ariannol eleni wedi canolbwyntio ar ganlyniadau strategol. Un llwyddiant mawr oedd ein rôl yn darparu mewnbwn i Adroddiad Tasglu Cymdeithas Bancwyr Prydain, "Improving outcomes for customers in vulnerable circumstances." Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion wedi'u cynllunio er mwyn ei gwneud yn haws i ffrindiau a theulu gefnogi pobl sy'n agored i niwed, ac roedd rhai'n ymwneud yn benodol ag atwrneiaethau a'r Llys Gwarchod.

Yn ogystal â hyn datblygwyd rhywfaint o ddeunyddiau dysgu ar-lein ar gyfer banciau a chymdeithasau adeiladu. Mae'r deunyddiau dysgu hyn yn helpu staff sy'n delio gyda chwsmeriaid i adnabod dogfennau atwrneiaethau a gorchmynion dirprwyaeth a deall rôl atwrneiod a dirprwyon. Rhoddodd un o brif fanciau'r DU y gwasanaeth dysgu ar-lein ar brawf eleni ac mae'r adborth cychwynnol wedi bod yn dda iawn. Rydym yn gobeithio rhannu'r pecyn dysgu hwn gyda banciau a chymdeithasau adeiladu eraill yn fuan.

Rydym wedi dal i symud ymlaen â'n hadolygiad o ffioedd er nad ydym wedi gallu gwneud unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Thrysorlys EM, yn dilyn yr Adolygiad o Wariant yn yr hydref, a byddwn yn cefnogi unrhyw newidiadau sydd eu hangen cyn gynted ag y bo modd.

Mae arolygon cwsmeriaid rheolaidd wedi dweud wrthym bod lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid ag LPA wedi cyrraedd cyfartaledd o 79.9% eleni, a bod lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid â dirprwyaethau yn 62%. Rydym yn defnyddio'r holl adborth a gawn gan ein cwsmeriaid i wneud gwelliannau i'n gwasanaethau.

| **Dangosydd gwasanaeth i gwsmeriaid: Arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid OPG** | | | |
|---|---|---|---|
| Y ganran darged ar gyfer cwsmeriaid sy'n 'fodlon iawn' neu'n 'weddol fodlon' â gwasanaethau'r OPG yw 80% | | | |
| **Pwrpas** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell data** | **Cyflawnwyd hyd 31 Mawrth 2016** |
| Mae'r dangosydd hwn yn ein helpu i ddeall anghenion ein cwsmeriaid. Mae hefyd yn ein helpu i nodi patrymau er mwyn i ni allu gwella gwasanaethau'n barhaus. | Y nifer a ymatebodd gan ddweud eu bod yn 'fodlon iawn' neu'n 'weddol fodlon' wedi'i rannu â nifer yr ymatebwyr i'r arolwg. | Arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid ag LPA a dirprwyaethau. | Roedd sgôr yr arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid ar ddiwedd y flwyddyn yn 75%.<br><br>Mewn ymateb i'r prif faes sy'n achos pryder mae OPG yn cyflwyno cynllun i neilltuo rheolwr achos dynodedig ar gyfer pob dirprwy lleyg er mwyn darparu cefnogaeth o ddechrau'r broses i'w diwedd. |

## Canolfan cyswllt cwsmeriaid

Cafodd y ganolfan cyswllt cwsmeriaid 314,059 o alwadau yn 2015/16, cynnydd o 16% oddi ar y flwyddyn flaenorol. Cofnodwyd cynnydd sylweddol yn nifer y galwadau ym mhob categori yn hytrach na chynnydd mewn un maes penodol. Mewn ymateb, cytunodd Bwrdd OPG ym mis Chwefror i gynnal adolygiad systematig o'n canolfan cyswllt cwsmeriaid. Y nod yw datblygu dull mwy cynaliadwy o reoli ymholiadau ffôn yn effeithiol.

| **Dangosydd gwasanaeth i gwsmeriaid: Canolfan cyswllt cwsmeriaid** | | | |
|---|---|---|---|
| Y targed ar gyfer yr amser aros cyfartalog i ddefnyddwyr sy'n galw canolfan cyswllt cwsmeriaid OPG yw 60 eiliad | | | |
| **Pwrpas** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell data** | **Cyflawnwyd hyd 31 Mawrth 2016** |
| Mae'r dangosydd hwn yn mesur cefnogaeth ac arweiniad amserol a chywir ar gyfer holl wasanaethau OPG, a chyfeirio at wasanaethau'r Llys Gwarchod lle bo'n briodol. | Cyfanswm amser aros galwadau* wedi'i rannu â chyfanswm y galwadau a dderbyniwyd.<br><br>Mae galwadau sy'n cael eu hailgyfeirio, gan nad ydynt yn ymwneud â'n gwasanaethau ni, yn cael eu tynnu o gyfanswm ein galwadau er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu cyfrif ddwywaith.<br><br>* nid yw amser aros yn cynnwys yr amser y mae'r galwr yn gwrando ar y neges ragarweiniol sydd wedi'i recordio ymlaen llaw. | System rheoli data teleffoni OPG. | Yr amser aros cyfartalog ar ddiwedd y flwyddyn oedd 117 eiliad. |

# Diogelu rhai sy'n agored i niwed

## Goruchwylio dirprwyon

Os yw rhywun yn colli galluedd meddyliol heb benodi atwrnai cyn hynny, bydd y Llys Gwarchod yn penodi dirprwy i wneud penderfyniadau ar ei ran. Mae'r dirprwyon hyn yn cael eu goruchwylio gan OPG. Daliasom i wella'r ffordd rydym yn darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth gymesur i ddirprwyon yn 2015/16.

Mae nifer y gorchmynion dirprwyaeth rydym yn eu goruchwylio wedi cynyddu tua 8%, o ychydig dros 53,000 yn Ebrill i dros 57,243 erbyn diwedd 2015/16. Mae hyn yn dilyn cynnydd o 6% yn 2014/15.

Elfen bwysig o'n gwaith yw'r gefnogaeth rydym yn ei rhoi i ddirprwyon newydd er mwyn rheoli a gweinyddu materion ariannol pobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud hynny drostynt eu hunain. Mae llawer o ddirprwyon yn lleygwyr. Yn aml iawn maent yn berthnasau i'r sawl sydd wedi colli ei alluedd, ac mae eu gwybodaeth neu eu dealltwriaeth o waith dirprwy'n gyfyngedig. Gwyddom pa mor bwysig y gall ein cymorth a'n cyngor ni fod ar adeg anodd pan mae pobl dan bwysau, ac rydym yn falch iawn ein bod wedi gwneud cyswllt uniongyrchol eleni â 94% o'r dirprwyon o fewn 35 niwrnod ar ôl ein llythyr yn cadarnhau eu trefniadau goruchwylio. Gwyddom o adborth gan ddirprwyon fod y cyswllt cyntaf yn gallu bod yn elfen hollbwysig o'r gefnogaeth a'r cyngor y mae arnynt ei angen.

Mae wedi bod yn dipyn o her, ond rydym wedi cyrraedd neu ragori ar bob un ond un o'n dangosyddion perfformiad goruchwylio yn 2015/16.

Yr eithriad oedd yr amser cyfartalog a gymerwyd i gael adroddiad blynyddol dirprwy, sef 41 diwrnod, sydd ychydig y tu allan i'n targed o 40 niwrnod. Ddechrau mis Ebrill, roedd 2.1% o'n hachosion dirprwyaeth yn dal i ddisgwyl am adroddiadau ac erbyn diwedd Mawrth roedd hyn wedi gostwng i 1.3%.

Eleni cyflwynasom nifer o weithdrefnau newydd yn teilwra ein gwasanaethau i wahanol fathau o ddirprwyon a lefelau goruchwylio:

- Yng Ngorffennaf cyhoeddasom gyfres o safonau ar gyfer dirprwyon proffesiynol a dirprwyon awdurdodau cyhoeddus. Mae'r safonau'n egluro beth a ddisgwylir gan ddirprwyon, ac yn cynnwys rhestr wirio bwysig o'r camau gweithredu a'r ymddygiadau a ddisgwylir. Mae'r safonau, ynghyd ag ymweliadau sicrwydd, erbyn hyn yn rhan bwysig o'n dull gwell o gefnogi a goruchwylio'r dirprwyon hyn.
- Aseswyd 1,004 o ddirprwyaethau proffesiynol a dirprwyaethau awdurdodau lleol gan ddefnyddio'r safonau, gan gyrraedd ein nod o adolygu 40% o gyfanswm y llwyth achosion yn y categori hwn.
- Erbyn hyn mae'n ofynnol i ddirprwyon proffesiynol gyflwyno adroddiad amcangyfrif cost am y flwyddyn sydd i ddod ar gyfer pob un o'u hachosion. Rydym wedi gweithio mewn cysylltiad agos â Swyddfa Gostau'r Uwchlysoedd er mwyn cytuno ynglŷn â'r fformat a'r broses ar gyfer rheoli amcangyfrifon cost ac rydym wedi datblygu canllawiau ategol i gynorthwyo dirprwyon proffesiynol.
- Cyflwynasom hefyd ofynion newydd yn ymwneud ag adroddiadau blynyddol ar gyfer achosion â lefel sylfaenol o oruchwyliaeth. Bwriadwn gyflwyno hyn yn raddol i'r holl achosion goruchwyliaeth sylfaenol yn y ddwy flynedd nesaf.
- Mae offeryn newydd sy'n gwerthuso risg cleientiaid yn cynorthwyo ein rheolwyr achosion i asesu risg a nodi camau posibl i reoli achosion. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod asesu risg yn digwydd drwy gydol achos, gan sicrhau bod camau cymesur a phriodol yn cael eu cymryd er mwyn cefnogi dirprwyon a diogelu cleientiaid.

Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r gwaith o drosglwyddo i'n model cyflawni goruchwylio newydd yn 2014/15. Yn 2015/16, yng ngham olaf y broses drosglwyddo dechreuodd ymchwilwyr dirprwyaethau weithio ochr yn ochr â rheolwyr achosion. Mae hyn wedi golygu bod modd trafod problemau achosion cymhleth mewn amgylchedd cefnogol a bod modd rheoli unrhyw broblemau yn gyflym.

**Dangosydd effaith: Goruchwylio dirprwyon**

a) Targed yr amser cyfartalog ar gyfer cwblhau cymorth y cysylltiad cyntaf o fewn 35 niwrnod yw 85%
b) Targed yr amser cyfartalog ar gyfer cael adroddiadau blynyddol o fewn 40 niwrnod gwaith
c) Targed yr amser cyfartalog ar gyfer adolygu adroddiadau blynyddol o fewn 15 niwrnod gwaith
d) Targed ar gyfer adolygu 40% o'r holl ddirprwyaethau proffesiynol a'r dirprwyaethau awdurdodau lleol gan ddefnyddio'r safonau

| Pwrpas | Dull cyfrifo | Ffynhonnell data | Cyflawnwyd hyd 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|---|
| Mae'r dangosyddion hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn darparu cymorth cymesur a phriodol i bob dirprwy. | a) Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith rhwng dyddiad hysbysu'r dirprwy drwy lythyr am ei lefel oruchwylio a dyddiad cwblhau'r cysylltiad personol. Rydym yn cofnodi:<br>• dyddiad cwblhau'r galwadau cyflwyno a chynefino<br>• dyddiad dychwelyd holiadur ar ôl ei lenwi<br>• dyddiad ymweliad llwyddiannus<br>• y dyddiad yr ydym yn penderfynu atgyfeirio'r achos er mwyn cymryd camau a allai gynnwys rhyddhau'r dirprwy am beidio â chydymffurfio.<br><br>b) Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith rhwng dyddiad dychwelyd penodedig yr adroddiad (40 niwrnod gwaith ar ôl pen blwydd y gorchymyn llys) a'r dyddiad y cafwyd yr adroddiad yn OPG.<br><br>c) nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith rhwng y dyddiad y daw adroddiad blynyddol i law a dyddiad ei adolygu.<br><br>d) Mesurir hyn drwy gofnodi nifer yr ymweliadau sicrwydd neu adolygiad pen bwrdd a all fod yn adolygiad dros y ffôn, yn adolygiad llawn o'r adroddiadau ariannol neu'n adolygiad achos.. | Systemau rheoli achosion mewnol OPG. | a) Ar ddiwedd y flwyddyn cysylltwyd â 94% o'r dirprwyon o fewn 35 niwrnod gwaith.<br><br>b) Ar ddiwedd y flwyddyn yr amser cyfartalog ar gyfer cael adroddiadau blynyddol oedd 41 diwrnod.<br><br>c) Ar ddiwedd y flwyddyn roedd yr holl adroddiadau blynyddol wedi'u hadolygu cyn pen 8 niwrnod.<br><br>d) Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 1,004 o ddirprwyaethau wedi'u hadolygu, sy'n 40% o'r cyfanswm |

## Ymchwiliadau a diogelu

Mae atgyfeiriadau diogelu'n dod o nifer o ffynonellau, gan gynnwys perthnasau, awdurdodau lleol, cartrefi gofal a sefydliadau ariannol. Rydym yn dal i weithio mewn cysylltiad agos iawn â'n partneriaid allanol – gan gynnwys y Llys Gwarchod, darparwyr bondiau gwarant, awdurdodau lleol a'r heddlu – er mwyn amddiffyn a diogelu ein cleientiaid.

Derbyniodd OPG gyfanswm o 2,681 o atgyfeiriadau diogelu newydd yn ystod 2015/16, cynnydd o 26.5% oddi ar y flwyddyn flaenorol. Eleni ymchwiliwyd i 876 o achosion, cynnydd o 15.2% oddi ar y flwyddyn flaenorol, ac arweiniodd 151 o'r achosion at gais i'r Llys Gwarchod. Cwblhawyd pob un o'n hymchwiliadau o fewn 69 niwrnod ar gyfartaledd, gan ragori ar ein targed o 70 niwrnod. Os nad oedd yr achosion yn briodol i ni ymchwilio iddynt, cynigiwyd cyngor neu atgyfeiriadau uniongyrchol at yr asiantaeth briodol, fel yr awdurdod lleol neu'r heddlu.

Cyflwynasom ymchwiliadau llwybr cyflym yn 2014/15. Ymchwiliadau yw'r rhain sy'n canolbwyntio ar agweddau neu bryderon unigol, fel achosion lle mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar honiadau unigol o gam-drin sy'n gysylltiedig ag arian neu les. Mae'r enghreifftiau nodweddiadol o achosion yr ydym wedi edrych arnynt eleni'n cynnwys: gwerthu tŷ am bris is na'i werth, gwerthu cartref y cleient i'r atwrnai, trosglwyddo symiau mawr o arian o gyfrif banc y cleient i gyfrif banc arall a chreu LPA drwy dwyll. Cwblhawyd pob un o'n hymchwiliadau llwybr cyflym cyn pen 51 diwrnod.

Yng Ngorffennaf 2015 sefydlwyd memorandwm cyd-ddealltwriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn i ni allu rhannu gwybodaeth a gweithio ar y cyd i amddiffyn oedolion sydd mewn perygl. Ym mis Rhagfyr cytunasom ar brotocol rhannu gwybodaeth gyda Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Pwrpas hyn yw sicrhau ein bod yn dilyn yr arferion gorau pan fo achosion yn cael eu hatgyfeirio i'r heddlu os oes amheuaeth o weithgaredd troseddol.

Agorodd y Gwarcheidwad Cyhoeddus adolygiad o'r ffordd y mae OPG yn diogelu ei gwsmeriaid agored i niwed eleni. Cyfeirir ato fel astudiaeth ddiogelu OPG; mae'n ceisio rhoi sylw i rai o'r argymhellion yn adolygiad Tŷ'r Arglwyddi o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae'r astudiaeth yn ystyried ein diwylliant a'n prosesau mewnol a sut y gallwn ddal i weithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i ni er mwyn sicrhau ein bod yn gydgysylltiedig ac yn effeithlon. Eleni sefydlwyd arweinydd lles yn OPG, er mwyn rhoi sylw i risg ym mhob ymchwiliad mewn achosion iechyd a lles. Bydd gwaith ar yr astudiaeth ddiogelu'n parhau yn 2016/17.

Rydym bellach yn bartner ymarfer cofrestredig a chydnabyddedig yn Adran Gwaith Cymdeithasol Prifysgol Dinas Birmingham. Ni yw'r adran llywodraeth gyntaf i weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Dinas Birmingham fel hyn; bydd myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn cael profiad ymarferol drwy weithio gyda ni a bydd ein staff yn gallu cyfnewid barn a dulliau o ymdrin â diogelu. Bydd y bartneriaeth hon yn helpu i ddatblygu rhagor o ddealltwriaeth o waith OPG yn y sector gofal.

Daliasom i ddatblygu'r dull o ddatrys problemau gyda dirprwyon ac atwrneiod heb fod angen troi at y Llys Gwarchod. Cafodd cynllun cyfryngu mewnol peilot ei werthuso a'i ystyried gan Fwrdd OPG eleni ac rydym yn bwriadu lansio gwasanaeth cyfryngu yn 2016/17.

**Dangosydd effaith: Ymchwiliadau**

a) Y targed yw gwneud asesiad risg ar gyfer 95% o'r pryderon a fynegwyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith
b) Y targed yw cwblhau pob ymchwiliad o fewn 70 niwrnod gwaith
c) Y targed yw cwblhau argymhellion o fewn 45 niwrnod gwaith

| Pwrpas | Dull cyfrifo | Ffynhonnell data | Cyflawnwyd hyd 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|---|
| Mae'r dangosyddion hyn yn ymwneud yn bennaf â chyfrifoldeb OPG i ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed.<br><br>a) Bydd OPG yn cynnal proses asesu risg er mwyn penderfynu:<br>• a oes awdurdodaeth gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus i ymchwilio i bryderon ac, os nad oes, cyfeirio'r pryder at yr asiantaeth berthnasol<br>• a yw'r person agored i niwed mewn perygl uniongyrchol o ran ei les personol neu faterion ariannol/eiddo a pha gamau y mae angen eu cymryd yn syth<br>• a ellir ymchwilio i'r pryder dros gyfnod hwy.<br>b) Bernir bod ymchwiliad wedi'i gwblhau:<br>• os bydd adroddiad ysgrifenedig ffurfiol yn cael ei lofnodi gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus<br>• os cytunir i gymeradwyo cais i'r llys (os yw hyn cyn dyddiad adroddiad y Gwarcheidwad Cyhoeddus)<br>• os bydd y rheolwr cydymffurfiaeth yn cytuno i gwblhau ymchwiliad os bernir nad oes angen adroddiad i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus<br>• os bydd y cleient yn marw (os yw'r rheolwr cydymffurfiaeth yn barnu bod digon o waith wedi'i wneud ar yr achos i gyfiawnhau ei gynnwys).<br>c) Pennir bod argymhelliad wedi'i gwblhau:<br>• os cymeradwyir cau achos<br>• os bydd yr ymchwilydd yn hysbysu'r atwrnai/dirprwy am ganlyniad yr ymchwiliad ac unrhyw ofynion pellach. Ni fydd yn cynnwys monitro dilynol ar yr achos.<br>• os gwneir cais i'r Llys Gwarchod, os oedd hyn yn ganlyniad i argymhelliad a gymeradwywyd gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus<br>• os bydd y dirprwy'n gwneud cais i'r Llys Gwarchod. | a) Mae 2 ddiwrnod gwaith yn dechrau ar y dyddiad y mae OPG yn cael ei hysbysu am y pryder. Diwrnod 1 fydd y diwrnod gwaith nesaf ar ôl cael ein hysbysu am y pryderd.<br><br>b) Mae'r cyfnod 70 niwrnod gwaith yn dechrau ar y dyddiad y mae OPG yn cael ei hysbysu am y pryder sy'n arwain at ymchwiliad. Diwrnod 1 fydd y diwrnod nesaf ar ôl cael ein hysbysu am y pryder.<br><br>c) Mae'r cyfnod 45 niwrnod gwaith yn dechrau ar y dyddiad y mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cymeradwyo'r adroddiad. Diwrnod 1 fydd y diwrnod nesaf ar ôl cymeradwyo'r adroddiad. | • Asesir risg pob cwyn a phryder ac ystyrir awdurdodaeth y Gwarcheidwad Cyhoeddus. Cofnodir atgyfeiriadau gan gynnwys:<br>• dyddiad hysbysu OPG am y pryder<br>• dyddiad derbyn y pryder gan y tîm ymchwiliadau<br>• dyddiad yr asesiad risg<br>• cyfnod yr asesiad risg (diwrnodau gwaith)<br>• dyddiad cwblhau'r ymchwiliad<br>• canlyniad cais i'r Llys Gwarchod<br>• cyfnod yr ymchwiliad (cyn adrodd)<br>• cyfnod yr ymchwiliad (ar ôl adrodd)<br>• dyddiad cymeradwyo cau argymhellion. | a) Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 95% o'r pryderon wedi cael asesiad risg o fewn 2 ddiwrnod gwaith.<br><br>b) Ar ddiwedd y flwyddyn roedd yr amser cyfartalog i gwblhau ymchwiliadau yn 69 niwrnod gwaith.<br><br>c) Ar ddiwedd y flwyddyn yr amser cyfartalog i gwblhau'r holl argymhellion oedd 28 niwrnod gwaith. |

## Ymwelwyr a dirprwyon panel

Roedd ymwelwyr y Llys Gwarchod wedi cwblhau 9,829 o ymweliadau yn ystod y flwyddyn i ategu gweithgareddau goruchwylio ac ymchwilio'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Rhoddwyd blaenoriaeth i achosion lle'r oedd amheuaeth o gam-drin ac roedd 97.3% o'r comisiynau wedi'u rhoi i ymwelydd cyn pen 24 awr.

Eleni recriwtiwyd dau ymwelydd cyffredinol newydd, a disgwylir y bydd 20 o ymwelwyr dan gontract yn ymuno ag OPG yn gynnar yn 2016/17. Yn ychwanegol at hyn cyflwynasom god ymddygiad ar gyfer ein hymwelwyr, a fydd yn dod yn rhan o'r broses arfarnu ar gyfer ymwelwyr parhaol. Hwn hefyd fydd y cam cyntaf tuag at fonitro perfformiad contractwyr gan ymwelwyr parhaol.

Mae OPG yn gweinyddu'r panel dirprwyon y mae'r Llys Gwarchod yn ei ddefnyddio mewn achosion lle nad oes neb arall yn gallu neu'n barod i weithredu fel dirprwy. Yn 2015/16, gwnaethpwyd 366 o atgyfeiriadau at y panel dirprwyon gan y Llys Gwarchod a 186 o atgyfeiriadau at y panel dirprwyon gan OPG. Cafwyd 29 o ymweliadau sicrwydd â dirprwyon panel, a 117 o ymweliadau â'u cleientiaid.

Dechreuwyd ar y broses o ddenu aelodau newydd i'r panel dirprwyon ym Mehefin 2015 a phenodwyd 71 o ddirprwyon yng Nghymru a Lloegr. Mae'r panel dirprwyon newydd yn cynnig amrywiaeth fawr o sgiliau a phrofiad fel y gellir darparu dirprwy addas ar gyfer pob cleient sydd angen un. Yn Nhachwedd 2015 cafodd y panel dirprwyon newydd gyfle i gyfarfod staff OPG er mwyn rhwydweithio a rhannu arferion da. Yn ychwanegol at hyn cynhaliwyd cynadleddau ar gyfer ymwelwyr arbennig (meddygol) a chyffredinol yn ystod y flwyddyn

## Cwynion

Rydym yn rhedeg proses gwyno haenog ar gyfer cwsmeriaid sy'n anfodlon â'r gwasanaeth y maent yn ei gael. Yn yr haen gyntaf, bydd cwynion yn cael eu hystyried gan y maes busnes sy'n gyfrifol. Os bydd cwsmer yn anfodlon â'r ymateb hwn, gall ofyn am uwchgyfeirio ei gŵyn at yr ail haen. Wedyn bydd y gŵyn a'r ffordd yr oedd wedi'i thrafod yn cael ei hadolygu gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus. Os bydd cwsmer yn parhau'n anfodlon, gall ofyn wedyn i'w AS gyfeirio ei gŵyn at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd er mwyn cynnal adolygiad annibynnol.

Eleni rydym wedi gweld cynnydd bach yn nifer y cwynion, ond o'i ystyried fel cyfran o'n llwyth gwaith mae'r nifer wedi gostwng. Cawsom 6,945 o gwynion yn 2015/16 o gymharu â 6,376 o gwynion yn 2014/15 a 3,549 o gwynion yn 2013/14.

Cynyddodd nifer y cwynion a oedd yn ymwneud â chofrestru atwrneiaethau i 6,002 yn 2015/16 o'i gymharu â 5,790 yn 2014/15. Mae canran y cwynion o gymharu â'r llwyth gwaith wedi gostwng i 1.1% (allan o 547,021 o geisiadau) o 1.4% (allan o 409,049 o geisiadau).

Roedd y rhan fwyaf o'r cwynion yn ymwneud â phrosesu ceisiadau LPA ac EPA. Roeddent yn ymwneud yn bennaf ag:

- oedi wrth brosesu ceisiadau ac ad-daliadau
- ansawdd gwasanaeth i gwsmeriaid
- penderfyniadau yn ymwneud â dilysrwydd LPA ac EPA.

Yn ystod y flwyddyn fusnes sefydlwyd fforwm cwynion lle mae staff sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion yn nodi ac yn rhoi adborth am themâu sy'n dod i'r amlwg i reolwyr busnes er mwyn ystyried newidiadau a gwelliannau.

Gwelwyd gostyngiad yn nifer y cwynion sy'n ymwneud â goruchwylio dirprwyon, sy'n arwyddocaol o ystyried y cynnydd yn ein llwyth gwaith - 381 o gwynion yn 2015/16 o gymharu â 388 yn 2014/15. Mae canran y cwynion o'i chymharu â'r llwyth gwaith wedi gostwng o 0.7% (â llwyth achosion o 53,100) i 0.6% (â llwyth achosion o 57,243).

Mae gwell cyfathrebu â dirprwyon wedi helpu i reoli disgwyliadau ynglŷn â graddfeydd amser a gwella dealltwriaeth o'n polisïau ffioedd. Disgwyliwn y bydd y gwelliant hwn yn cael ei adlewyrchu yn nifer y cwynion y flwyddyn nesaf.

Ein nod yw ymateb i 90% o'r cwynion o fewn deng niwrnod gwaith. Yn 2015/16, roeddem wedi ymateb i 68.2% ohonynt o fewn y cyfnod hwn o'i gymharu â 51.2% yn 2014/15. Er bod y ganran a gwblhawyd o fewn ein nod o 10 niwrnod yn llawer is na'n targed, roedd nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i ymateb i gwynion yn ystod y flwyddyn yn 9.8 niwrnod gwaith, sydd o fewn ein targed o 10 niwrnod gwaith.

O'r holl gwynion a gafwyd, 5.9% ohonynt a gafodd eu huwchgyfeirio am ymateb at y Gwarcheidwad Cyhoeddus, o gymharu â 4.3% yn 2014/15. Derbyniodd yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd saith achos newydd ar gyfer ymchwiliad llawn eleni a chwblhawyd chwe ymchwiliad o fewn y flwyddyn. O'r rhain, cafodd un ei gadarnhau'n rhannol ac ni chafodd pump eu cadarnhau. Rydym yn defnyddio adborth gan yr Ombwdsmon i nodi gwelliannau ac rydym wedi cydymffurfio â'i holl argymhellion.

Yn y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn dal i ddysgu gwersi o'r cwynion a gawn. Bydd ein hadroddiadau cwynion chwarterol yn rhannu gwybodaeth am batrymau ar draws ein busnes a bydd y fforwm cwynion yn dal i annog rhannu'r arferion gorau a chydweithio er mwyn gwella gwasanaethau. Rydym yn benderfynol o ddefnyddio adborth gan ddefnyddwyr a dal i wella'r gwasanaeth a gynigir.

| **Dangosydd Gwasanaeth i Gwsmeriaid: Cwynion** | | | |
|---|---|---|---|
| Y targed yw ymateb i 90% o'r holl gwynion gan gwsmeriaid cyn pen 10 niwrnod gwaith ar ôl eu derbyn | | | |
| **Pwrpas** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell data** | **Cyflawnwyd hyd 31 Mawrth 2016** |
| Mae'r dangosydd hwn yn chwarae rhan bwysig drwy helpu OPG i ddeall i ba raddau rydym yn cyflawni disgwyliadau ein cwsmeriaid. | Mesurir perfformiad drwy adio'r holl amser a gymerwyd i ateb yr holl gwynion a atebwyd mewn mis a'i rannu â chyfanswm y cwynion.<br><br>Mae'r dangosydd hwn yn cael ei fesur bob mis. | Gwybodaeth rheoli gan bob maes busnes unigol. | Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 68% o'r cwynion wedi derbyn ymateb cyn pen 10 niwrnod gwaith ar ôl eu derbyn. |

## Gohebiaeth

Eleni derbyniasom 85,109 o eitemau o ohebiaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ohebiaeth gan gwsmeriaid am geisiadau atwrneiaethau a chan ddirprwyon am eu pwerau a'u cyfrifoldebau.

| Dangosydd Gwasanaeth i Gwsmeriaid: Gohebiaeth | | | |
|---|---|---|---|
| Y targed yw ymateb i 90% o'r ohebiaeth cyn pen 10 niwrnod gwaith | | | |
| **Pwrpas** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell data** | **Cyflawnwyd hyd 31 Mawrth 2016** |
| Mae'r dangosydd hwn yn helpu i sicrhau ein bod yn ymateb i'n cwsmeriaid yn fuan. Mae hefyd yn sail i welliant parhaus i'r ffordd rydym yn gweithio a'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau. | Nifer yr eitemau o ohebiaeth gan gwsmeriaid yr ymatebwyd iddynt o fewn 10 niwrnod gwaith wedi'i rannu â nifer yr eitemau o ohebiaeth gan gwsmeriaid yr ymatebwyd iddynt mewn mis. | Systemau rheoli achosion mewnol a data postio OPG. | Derbyniodd 94% o'r eitemau o ohebiaeth ymateb cyn pen 10 niwrnod gwaith. |

## Cyfreithiol

Mae OPG yn drafftio ac yn cyflwyno ceisiadau ac yn cynrychioli'r Gwarcheidwad Cyhoeddus mewn gwrandawiadau yn y Llys Gwarchod. Rydym yn dal i weithio mewn cysylltiad agos iawn â'r Llys Gwarchod, yn enwedig yng nghyswllt y newid i ranbartholi eisteddiadau llys. Eleni rydym wedi canolbwyntio ar effeithlonrwydd a chyflymder; ein nod oedd lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed gan sicrhau bod unrhyw gamau cyfreithiol yn cael eu cymryd yn gyflym.

Mae drafftio a chyflwyno ceisiadau a chynrychioli'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn galw am gydweithredu agos rhwng ein tîm ceisiadau llys a'n timau ymchwilio, diogelu a goruchwylio. Mae hefyd yn galw am gydweithio â sefydliadau sy'n bartneriaid i ni sy'n cynnwys awdurdodau lleol, yr heddlu, cartrefi gofal, sefydliadau ariannol a chyfreithwyr yn ogystal ag atwrneiod a dirprwyon.

Rydym wedi ymwneud â thros 300 o achosion na roddwyd gwybod amdanynt a oedd yn ymwneud â chamau yn erbyn atwrneiod a dirprwyon sy'n camymddwyn. Buom hefyd yn helpu barnwyr dan Adran 49 o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol mewn dros 200 o achosion, gan ddechrau ymholiadau ac ymchwiliadau newydd os oedd angen.

Cafodd y Gwarcheidwad Cyhoeddus ei gynrychioli mewn 17 o ddyfarniadau pwysig sydd wedi'u cyhoeddi yn
**www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/**. Y rhain yw:

- The Public Guardian and ED [2015] EWCOP 26
- The Public Guardian and EL (revoking an LPA) [2015] EWCOP 30
- The Public Guardian and HC [2015] EWCOP 29
- The Public Guardian and SM (revocation of an LPA) [2015] EWCOP 27
- The Public Guardian and HS [2015] EWCOP 33
- The Public Guardian v SR & Anor [2015] EWCOP 32
- The Public Guardian and XZ [2015] EWCOP 35
- The Public Guardian and ARL [2015] EWCOP 55
- The Public Guardian and AMH [2015] EWCOP 70
- The Public Guardian and SF [2015] EWCOP 68
- The Public Guardian and AFR [2015] EWCOP 73
- The Public Guardian and DWA [2015] EWCOP 72
- The Public Guardian and HNL [2015] EWCOP 77
- The Public Guardian v AM [2015] EWCOP 86
- The Public Guardian and WP deceased and EP (Rev 1) [2015] EWCOP 84
- The Public Guardian and SH [2016] EWCOP 2
- The Public Guardian and YW [2016] EWCOP 18

Rydym wedi ceisio symleiddio'r dull o ymdrin â chamgymeriadau mewn LPA fel bod y nod cyffredinol o ganiatáu i bobl wneud dewisiadau gydag LPA dilys yn cael ei anrhydeddu os yw hynny'n bosibl. Rydym hefyd wedi diwygio'r broses o ddiddymu ceisiadau am LPA gan ei gwneud yn gwbl electronig, a thrwy hynny wneud yr amseroedd prosesu dros 40 niwrnod yn llai. Golyga hyn fod cwsmeriaid bellach yn gweld prosesau diddymu'n cael eu cwblhau cyn diwedd y cyfnod aros statudol, gan ddarparu gwell gwasanaeth i'n cwsmeriaid.

Erbyn hyn mae gennym fewnflwch ebost pwrpasol ar gyfer materion technegol proffesiynol fel bod ymarferwyr a'r farnwriaeth yn gallu cysylltu â ni ynglŷn â drafftio anarferol, ein hagwedd at faterion sy'n dod i'r amlwg, cyfraith achosion newydd, a mynegi pryder yn gyfrinachol. Rydym hefyd wedi holi ymarferwyr drwy arolwg am hyfforddiant yn y dyfodol ac wedi dechrau gweithio ar nodiadau ymarfer er mwyn rhannu rhai o'n syniadau a gwella prosesau.

## Adroddiad cynaliadwyedd

Rydym yn adrodd am gyfleustodau a ddefnyddiwyd, teithio a gwastraff a gynhyrchwyd. Yn y gorffennol rydym wedi mesur hyn drwy gymharu ag Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2009 a Mawrth 2015; eleni rydym yn adrodd ar sail y targedau ar gyfer ei flwyddyn olaf.

Casglwyd ein data yn uniongyrchol o fesuryddion cyfleustodau, gan gyflenwyr, a chan gontractwyr gwaredu gwastraff. Os ydym yn rhannu adeiladau a chyflenwadau cyfleustodau rydym yn seilio ein defnydd ar y gofod sydd yn ein meddiant. Cesglir y wybodaeth hon fel rhan o ffigurau diwedd blwyddyn y Weinyddiaeth Cyfiawnder.


### Trawsnewid ystadau


Ym mis Rhagfyr symudasom i adeilad newydd yn Nottingham gan fod nifer y staff wedi cynyddu. Mae'r adeilad hwn yn llawer mwy diweddar ac mae ganddo sgôr effeithlonrwydd ynni well (D). Roedd y gwaith adnewyddu'n cynnwys mesurau arbed ynni fel bylbiau LED y gellir eu gwanhau a bylbiau rhad-ar-ynni a thoiledau sy'n defnyddio llai o ddŵr.

### Ein targedau

Rydym wedi rhagori ar berfformiad y llynedd ac rydym wedi cyflawni pob un ond dau o Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth eleni.


| Ymrwymiad Gwyrddu'r Llywodraeth | Targed lleihad y Llywodraeth hyd 31 Mawrth 2015 | Perfformiad hyd 31 Mawrth 2016 | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | 25% | gostyngiad o 45% | Rhagori |
| Gwastraff | 25% | gostyngiad o 47% | Rhagori |
| Dŵr | $6m^3$ per FTE | .4m3 am bob FTE | Rhagori |
| Papur | 10% | cynnydd o 65% | Heb ei gyrraedd |
| Teithio | 25% | gostyngiad o 10% | Heb ei gyrraedd |





Allyriadau CO2

- Teithio
- Nwy
- Trydan





Gwastraff


- Tirlenwi
- Wedi'i ailgylchu




Defnydd o ddŵr




Papur




Travel emissions

- Car
- Tube
- Train

Rydym wedi dod â'n swyddfeydd at ei gilydd mewn dau adeilad, sydd ill dau'n llawer mwy effeithlon nag yr oedd ystâd OPG yn 2009/10. Mae hyn wedi arwain at y rhan fwyaf o'n harbedion ynni ac allyriadau, hyd yn oed â chynnydd yn nifer y staff y naill flwyddyn ar ôl y llall. Mae gennym hefyd ychydig o staff yn Petty France, Llundain, y cyflwynir adroddiad arno gan Bencadlys y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Y llynedd ailgylchwyd 95% o'n holl wastraff, a chafodd 100% o'n gwastraff papur ei ailgylchu mewn dolen gaeëdig. Mae contractau ar gyfer dim gwastraff i safleoedd tirlenwi wedi'u gwneud bellach yn Birmingham a Nottingham, sy'n golygu y bydd 100% o'n gwastraff y flwyddyn nesaf yn cael ei ailgylchu neu ei droi'n olew tanwydd.

Mae ein defnydd o ddŵr ddau draean yn llai eleni o ganlyniad i welliannau i'n hystâd, gan gynnwys toiledau a lleoedd gwneud dŵr newydd sy'n defnyddio llai o ddŵr, a thapiau ewyn

Mae allyriadau $CO_2$ o ganlyniad i deithio wedi gostwng 10% eleni; rydym yn gwneud defnydd helaeth o delegynadleddau er mwyn lleihau teithio diangen. Rydym hefyd yn defnyddio traean o gyfanswm y papur fesul achos yr oeddem yn ei ddefnyddio chwe blynedd yn ôl, er bod ein llwyth gwaith a nifer y staff wedi cynyddu bob blwyddyn. Bydd cyfarpar telegynadleddau a chynadleddau fideo newydd, mwy hyblyg ar gael i ni y flwyddyn nesaf a bydd hynny hefyd yn lleihau'r angen i deithio.

## Bioamrywiaeth, cymunedau ac elusennau

Rydym yn gweithio gyda'n cymunedau lleol er mwyn gwella dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â galluedd meddyliol a chodi arian at achosion da.

Y llynedd cefnogodd ein staff Brosiect Gardd Gymunedol Windmill yn Nottingham sy'n cynnig cefnogaeth a gweithgareddau i bobl agored i niwed yn yr ardal leol. Mae'r gerddi'n gartref i gannoedd o rywogaethau o blanhigion ac yn denu llawer o adar a phryfetach prin.

Cododd ein pwyllgor elusennau £3,110 i elusennau lleol a chenedlaethol. Cyfrannwyd £700 ohono i Friends of Nottingham Mental Health, £1,280 i Comic Relief a £540 i Blant mewn Angen.

## Sefydlu cynaliadwyedd yn ein gwaith

Mae OPG yn annog pobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus; mae'r rhan fwyaf o'n staff yn defnyddio cludiant cyhoeddus i deithio i'r gwaith. Rydym yn cefnogi defnyddio cludiant cyhoeddus hefyd drwy gynnal digwyddiadau rheolaidd i rannu gwybodaeth am deithio a gwerthu tocynnau yn Birmingham a Nottingham, ac mae gennym hefyd gyfleusterau ar gyfer beicwyr ym mhob un o'n swyddfeydd.

Mae ein staff yn derbyn diweddariadau rheolaidd am gynaliadwyedd ac mae gennym rwydwaith bach o hyrwyddwyr cynaliadwyedd sy'n ymgysylltu â staff ac yn annog agwedd gynaliadwy at ein holl waith.

Rydym hefyd yn defnyddio'r ganolfan glirio dodrefn i gael gwared ar hen ddodrefn a chael dodrefn newydd, gan helpu i leihau gwastraff a gwariant.

**Alan Eccles CBE**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
30 Mehefin 2016

# Adroddiad atebolrwydd

## Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Bwrdd OPG

#### Ein Cyfarwyddwyr Gweithredol



**Alan Eccles CBE**

Gwarcheidwad Cyhoeddus, Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr



**Karen Morley**

Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol



**Iain Dougall**

Pennaeth Gweithrediadau



**Angela Johnson**

Pennaeth Ymarfer a Chydymffurfio

(yn gyfrifol am Oruchwylio ac Ymchwiliadau hyd Chwefror 2016)



**Ria Baxendale**

Pennaeth Goruchwylio ac Ymchwiliadau

(Mawrth 2016 ymlaen)



**Chris Jones**

Pennaeth Strategaeth a Datblygu Busnes

## Ein Cyfarwyddwyr Anweithredol

**Sarah Wood**

Cyfarwyddwr anweithredol a chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg OPG (hyd fis Mehefin 2015)



**Dean Parker**

Cyfarwyddwr anweithredol a chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg OPG (Gorffennaf 2015 ymlaen)



**Yr Athro Anthony Schapira**

Cyfarwyddwr anweithredol



**Janet Grossman**

Cyfarwyddwr anweithredol

## Ein Cynrychiolwyr o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder



**Dr Elizabeth Gibby**

Dirprwy Gyfarwyddwr y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Strategaeth a Pholisi Arbenigol

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan adran 7(2) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, rhoddodd Trysorlys EM gyfarwyddyd i'r asiantaeth i baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddatganiad o gyfrifon ar y ffurf ac ar y sail sydd wedi'u nodi yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun teg a chywir o sefyllfa Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac o'i halldro adnoddau net, ei defnydd o adnoddau, newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr a'r llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol:

- cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- barnu ac amcangyfrif ar sail resymol
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwysadwy sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi dynodi Prif Weithredwr OPG yn Swyddog Cyfrifyddu i'r asiantaeth. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau OPG, yn Managing Public Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf yn cadarnhau'r canlynol:

- nad oes gwybodaeth berthnasol y mae archwilwyr Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn anymwybodol ohoni
- fy mod wedi cymryd yr holl gamau dyladwy i sicrhau fy mod yn ymwybodol o'r wybodaeth archwilio berthnasol
- fy mod wedi cymryd yr holl gamau dyladwy i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o wybodaeth o'r fath
- bod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy
- fy mod yn derbyn cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy

**Alan Eccles CBE**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

30 Mehefin 2016

## Datganiad Llywodraethu

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut rydw i, fel Swyddog Cyfrifyddu OPG, wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb i drin a rheoli adnoddau OPG yn ystod y flwyddyn. Mae'r datganiad hwn yn disgrifio trefniadau llywodraethu OPG ac yn cynnwys asesiad o'r ffordd rwyf wedi cydbwyso risg, sicrwydd a rheolaeth drwy gydol 2015/16.

### Cyflwyniad

Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r adran. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu ym Mhennod 3 o Managing Public Money, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu wedi fy nynodi i, fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer gwariant gweinyddol OPG, ac wedi diffinio fy nghyfrifoldebau a'r berthynas rhwng OPG, y Swyddog Cyfrifyddu a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu.

Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ddeiliad swydd statudol a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder o dan Adran 57 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae'r rôl statudol hon wedi'i chyfuno â rôl weinyddol Prif Weithredwr OPG a Swyddog Cyfrifyddu'r asiantaeth, fel y mae Dogfen Fframwaith y Weinyddiaeth Cyfiawnder/ OPG yn dangos.

### Fframwaith llywodraethu

Nodir effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu OPG, y fframwaith rheoli risg a'r system rheolaeth fewnol yn y Datganiad Llywodraethu hwn.

Mae'r datganiad yn cynnwys yr asesiad gofynnol o gydymffurfiad â Chod Llywodraethu Corfforaethol y Trysorlys. Er bod y cod yn ymwneud yn bennaf ag adrannau gweinidogol, lle bo'n gymwys, mae OPG yn cymhwyso'r egwyddorion y mae'n credu eu bod yn gymesur â'i maint, ei statws a'i fframwaith cyfreithiol.

# Fframwaith Llywodraethu OPG

Mae strwythurau presennol y bwrdd a'r pwyllgorau i'w gweld yn y diagram isod:

Golwg annibynnol ar drefniadau llywodraethu, rheoli risg, mesurau rheoli a phrosesau sicrwydd OPG, gan gynnwys Iechyd a Diogelwch

**Pwyllgor Archwilio a Risg**
Gwarcheidwad Cyhoeddus/ Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Anweithredol
Yn cyfarfod bob chwarter

Yn sicrhau bod cyllid, perfformiad, risg, y gweithlu, adnoddau dynol, cwynion, cyflawni busnes, arweinyddiaeth a dathlu llwyddiant yn cael eu trin a'u rheoli'n effeithiol

**Tîm Rheoli Gweithredol**
Pob Swyddog
Yn cyfarfod bob mis

Profi a herio ffrydiau gwaith unigol a darparu sicrwydd ynglŷn â chyflawni rhaglen drawsnewid OPG

**Pwyllgor Newid**
Swyddogion Gweithredol, Penaethiaid Adrannau, Cyfarwyddwyr Anweithredol, Archwilio Mewnol y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r grŵp Polisi
Yn cyfarfod bob mis i ddechrau yna bob dau fis yn 2016

**Bwrdd OPG**
Gwarcheidwad Cyhoeddus / Prif Weithredwr, Swyddogion Gweithredol, Cyfarwyddwyr Anweithredol ac Aelodau
Yn cyfarfod bob mis

Yn darparu arweiniad a chyfeiriad strategol, gan helpu i gyflawni nodau ac amcanion OPG sydd wedi'u nodi yn y cynllun busnes

## Beth mae'r Bwrdd yn ei wneud

Mae'r Bwrdd wedi rhoi arweiniad strategol a gweithredol i OPG. Mae hefyd wedi craffu ar faterion sy'n effeithio ar ein perfformiad a'n polisïau a'u herio. Mae cyfrifoldebau'r Bwrdd mewn 8 prif faes:

- diogelu a hyrwyddo enw da OPG. Mae'n gwneud hyn drwy lywio a goruchwylio cyfeiriad OPG wrth iddi gyflawni ei nodau a'i hamcanion
- gweithredu yn unol â dogfen fframwaith y Weinyddiaeth Cyfiawnder/OPG y cytunwyd arni gyda'r Gweinidog a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol priodol. Mae ei aelodau'n gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd ac nid fel cynrychiolwyr y meysydd busnes y gallent fod yn eu harwain
- darparu cyfeiriad strategol i OPG, cytuno ar nodau, amcanion a chynlluniau busnes, gan osod targedau ar gyfer y sefydliad a gwireddu'r weledigaeth
- monitro perfformiad OPG, cyfathrebu â staff ynglŷn â gwerthoedd ac ymddygiad gan oruchwylio gweithrediadau a rheoli risg
- cymeradwyo dyraniad y gyllideb flynyddol ac unrhyw newidiadau sylweddol iddi yn ystod y flwyddyn
- helpu i gynnal perthynas waith gref rhwng staff OPG a'r sefydliadau sy'n bartneriaid iddi
- cymeradwyo fframwaith a rheolyddion llywodraethu corfforaethol OPG a monitro eu gweithrediad yn chwarterol
- sicrhau bod gwaith cynllunio, perfformiad a rheolaeth ariannol OPG yn cael ei wneud yn effeithlon ac yn effeithiol, yn agored ac yn dryloyw, a chyfrannu tuag at y gwaith o ddatblygu, a chymeradwyo, cynllun busnes blynyddol OPG.

## Prif lwyddiannau ac effeithiolrwydd

- Penodwyd Dean Parker yn Gyfarwyddwr Anweithredol OPG a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ym Mehefin 2015.
- Sicrhawyd penodiad cyfarwyddwyr anweithredol: cafodd contract yr Athro Anthony Schapira ei ymestyn am 3 blynedd arall o 30 Medi 2015 hyd 30 Medi 2018 a chafodd contract Janet Grossman ei ymestyn am 2 flynedd arall o 30 Medi 2015 hyd 30 Medi 2017.
- Roedd y Bwrdd wedi goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu adroddiad blynyddol a chyfrifon OPG am 2014/15 a roddwyd gerbron y Senedd ym Mehefin 2015 ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.
- Ymgynghorwyd â'r Bwrdd ynglŷn â'r cynllun busnes a'r gyfer 2015/16 a'r strategaeth sefydliadol, a chymeradwyodd hwy. Defnyddiodd y dogfennau hyn i adolygu a monitro cynnydd ym mhob cyfarfod ar ôl derbyn adroddiadau misol am gyllid a pherfformiad. Cafodd thema'r Cynllun Busnes ei rhoi ar yr agenda bob dau fis hefyd.
- Monitro rheolaeth ariannol yr asiantaeth, gan gynnwys heriau penodol yn gysylltiedig â ffioedd ac adennill costau.
- Ym Medi 2015 penderfynodd y Bwrdd y gellir defnyddio Sirius i brosesu LPA ac EPA (system rheoli achosion newydd OPG).
- Cefnogi'r prosiect Ystadau, gan ddarparu sicrwydd priodol a herio, i sicrhau adeilad newydd yn Nottingham ac ad-drefnu'n swyddfeydd yn Birmingham.
- Cymeradwyo cynlluniau adolygiad o wariant yr asiantaeth.
- Cynnal adolygiad chwarterol o gofrestrau risg a sicrhau bod rheoli risg yn cael ei ystyried yn rhan annatod o'r broses o dderbyn papurau a chyflwyniadau i'r bwrdd.
- Rhoddodd y Bwrdd sylw penodol hefyd i ymrwymiadau allweddol a gweithgareddau sy'n 'mynd at wraidd y mater' gan gynnwys:
  - monitro gweithrediad rheolaethau gwariant
  - herio effeithiolrwydd prosiect a phwyslais rhaglenni er mwyn ychwanegu gwerth nawr ac yn y dyfodol
  - adolygu ein model gweithredu, ein gallu a ffyrdd o weithio yn y dyfodol
  - lefelau absenoldeb a rheoli presenoldeb
  - arolygon staff a gweithgareddau ymgysylltu â'r gweithwyr.

Ar ôl cyflwyno strwythur newydd i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn Nhachwedd 2015, symudodd OPG i'r grŵp busnes Gweithrediadau, y penodwyd Matthew Coats yn Gyfarwyddwr Cyffredinol arno.

## Ein his-bwyllgorau a phwyllgorau cynghori annibynnol

Roedd gan y Bwrdd ddau is-bwyllgor: y Tîm Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Newid (y Pwyllgor Rheoli Trawsnewid gynt).Mae Pwyllgor Archwilio a Risg OPG yn bwyllgor cynghori annibynnol i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn dirprwyo gwaith i'r pwyllgorau/gweithrediaethau fel bod grwpiau llai o aelodau'n gallu edrych yn fanylach ar faterion. Bydd y pwyllgorau wedyn yn cyflwyno'u canfyddiadau i'r Bwrdd ar gyfer trafodaeth a chasgliad (fel y nodir yn 'Corporate Governance in Central Government Departments: Code of Good Practice').

| | Tîm Rheoli Gweithredol | Pwyllgor Newid | Pwyllgor Archwilio a Risg |
|---|---|---|---|
| **Rolau a Chyfrifoldebau** | Yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawni busnes OPG o ddydd i ddydd, gan gynnwys: cyllid, perfformiad, risg, newid/cynllunio'r gweithlu, cwynion, adnoddau dynol (rheoli presenoldeb, recriwtio), cyflawni busnes, arweinyddiaeth, ymgysylltu â gweithwyr a dathlu llwyddiant. | Dod â'r prif randdeiliaid at ei gilydd o bob rhan o OPG, Grŵp Polisi Cyfiawnder, tîm TGCh y Weinyddiaeth Cyfiawnder a phartneriaid cyflawni, Gwasanaethau Digidol y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth i sicrhau bod y rhaglen Drawsnewid yn rhedeg yn effeithiol, yn fwyaf arbennig drwy ddarparu'r prif fforwm ar gyfer y berthynas rhwng OPG, y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth, y Grŵp Polisi Cyfiawnder a chydweithwyr sy'n ymwneud â thrawsnewid. | Darparu barn annibynnol am briodoldeb, digonolrwydd a gwerth am arian ein prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth a phrosesau sicrwydd cysylltiedig a rhoi cyngor i Swyddog Cyfrifyddu OPG a Bwrdd OPG ar y canlynol:<br>• prosesau ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu<br>• digonolrwydd gweithdrefnau diogelu gwybodaeth a sicrwydd â mesurau rheoli yn ymwneud yn benodol â gweithdrefnau diogelu gwybodaeth a chyfrifoldebau<br>• polisïau cyfrifyddu a chyfrifon i OPG<br>• gweithgaredd wedi'i gynllunio a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol<br>• digonolrwydd ymatebion y rheolwyr i faterion a nodwyd drwy weithgaredd archwilio, gan gynnwys llythyrau rheoli archwilio mewnol ac allanol<br>• sicrwydd yn ymwneud â gofynion y Weinyddiaeth Cyfiawnder a gofynion llywodraethu corfforaethol<br>• digonolrwydd polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig |
| **Cadeirydd** | Alan Eccles, Gwarcheidwad y Cyhoedd/Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu | Alan Eccles, Gwarcheidwad Cyhoeddus/Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu | Dean Parker, Cyfarwyddwr Anweithredol |

| | Tîm Rheoli Gweithredol | Pwyllgor Newid | Pwyllgor Archwilio a Risg |
|---|---|---|---|
| **Prif Lwyddiannau ac Effeithiolrwydd** | Mae'r tîm wedi parhau i ddatblygu'r canolbwynt cyllid a pherfformiad fel ffordd o reoli perfformiad a rhagfynegi llwyth gwaith yn y dyfodol.<br>Bu aelodau'r tîm yn cynrychioli'r sefydliad mewn nifer o ddigwyddiadau allanol ac yn y rhai a drefnwyd gan OPG yn ystod y flwyddyn.<br>Cymeradwyodd y tîm y bwriad i greu Uwch Dîm Arwain, a fyddai'n adrodd yn uniongyrchol i'r Tîm Rheoli Gweithredol. Nod yr Uwch Dîm Arwain yw cefnogi'r Tîm Rheoli Gweithredol â'r gwaith o gyflawni ei fusnes a gweithredu yn unol ag awdurdodau a ddirprwywyd er mwyn symud ymlaen â mentrau busnes penodol. Roedd y meysydd a ddirprwywyd yn cynnwys Cydnabod a Gwobrwyo, Rheoli Presenoldeb, paratoi Proffiliau o'r Gweithlu ac adolygu polisïau<br>Mae'r tîm wedi hwyluso cyfres o ddigwyddiadau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau a gwella gallu ar draws y cnewyllyn arweinyddiaeth gan gynnwys digwyddiad Arweinyddiaeth Ehangach i bob rheolwr canol yn OPG.<br>Bu'r tîm yn goruchwylio lansiad offer cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys cyfrif Twitter OPG a Blog OPG ar dudalennau GOV.UK.<br>Bu'r tîm yn goruchwylio'r trosglwyddiad llwyddiannus o system gyllid annibynnol i brif system y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn Ionawr 2016. | Mae gan OPG gynllun portffolio blynyddol, cynlluniau meysydd gwasanaeth ac adroddiad portffolio a ddefnyddir i fesur faint o newidiadau sy'n cael eu cynllunio er mwyn i'r Pwyllgor gefnogi newidiadau perthnasol ar draws y flwyddyn fusnes. Mae hyn yn tynnu sylw at unrhyw eithriadau, problemau, neu'n gwneud cais am symud ymlaen/rhoi'r gorau i newid.<br>Cymeradwyodd y Pwyllgor ddogfen cychwyn prosiect ar gyfer adolygiad o ddatblygu sefydliadol yn edrych sut mae OPG yn gweithredu fel sefydliad. Byddai'n adolygu ein prosesau a'n gweithdrefnau, ac elfennau diwylliannol, gan ganolbwyntio ar yr agwedd pobl hefyd.<br>Mae'r offeryn dirprwyaethau digidol yn caniatáu i ddirprwyon gwblhau eu hadroddiadau blynyddol ar-lein. Cymeradwyodd y Pwyllgor lansiad beta cyhoeddus yn dilyn asesiad llwyddiannus gan Wasanaethau Digidol y Llywodraeth ac mae'r offeryn yn fyw ar GOV.UK.<br>Mae ein hofferyn LPA ar-lein a lansiwyd yn 2014 erbyn hyn yn gallu cefnogi ffurflenni LPA newydd.<br>Dechreuodd cynllun peilot LPA Sirius ar 20 Ebrill 2015, gan sicrhau bod modd symud LPA ymlaen i'r cam cofrestru, a thorri'r ddibyniaeth ar y systemau rheoli achosion presennol nad ydynt yn gallu ymdopi mwyach â'r galw.<br>Cafodd yr achos busnes dros ddatblygu gweithgaredd goruchwylio Sirius, parhau i ddatblygu cynnyrch digidol eraill a chynnyrch newydd ei gadarnhau gan y Pwyllgor ac mae'n dilyn llwybrau cymeradwyo angenrheidiol y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Thrysorlys EM. | Cefnogi OPG â'r newidiadau sylweddol ym maes Goruchwylio, sydd wedi darparu lefelau llawer uwch o wasanaeth i gwsmeriaid.<br>Gwelliant parhaus i'r broses cau cyfrifon ar gyfer 2015/2016.<br>Parhau i fonitro Sicrwydd Gwybodaeth, yn fwyaf arbennig gweithredu polisi Seiberddiogelwch a fydd yn sail i'r broses o newid i ddigidol sy'n mynd yn ei blaen wrth i'r asiantaeth symud tuag at wasanaeth Digidol yn Bennaf.<br>Annog a chefnogi'r busnes i fabwysiadu agwedd fwy cymesur at reoli risg.<br>Sicrhau bod sgorau risg yn adlewyrchu'r risg gyffredinol i'r busnes a bod risgiau allanol a risgiau sy'n dod i'r amlwg hefyd yn cael eu cofnodi a'u hystyried gan y Tîm Rheoli Gweithredol.<br>Adolygu a diweddaru agenda'r Pwyllgor Archwilio a Risg fel bod modd rhoi mwy o sylw i'r prif risgiau a deall meysydd busnes penodol yn well.<br>Cefnogi ymdrechion OPG i wella prosesau rheoli perfformiad a lleihau nifer y diwrnodau a gollir oherwydd absenoldeb.<br>Cynghori a chefnogi newid mewn trothwyon cyfalaf er mwyn gweddu'n well i anghenion y busnes.<br>Cefnogi rhaglen Ystadau OPG, gan gynnwys cymeradwyo uwchraddio risgiau allweddol i'w cynnwys yng nghofrestr risg y Weinyddiaeth Cyfiawnder. |

## Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd/Pwyllgorau

* Mae'r Prif Weithredwr/Gwarcheidwad Cyhoeddus a'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol yn mynychu'r Pwyllgor Archwilio a Risg fel aelodau ychwanegol

| | Bwrdd OPG | | Tîm Rheoli Gweithredol | | Pwyllgor Archwilio a Risg | | Pwyllgor Newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys |
| Alan Eccles, Prif Weithredwr a Gwarcheidwad Cyhoeddus | 12 | 12 | 12 | 12 | 4* | 4 | 4 | 10 |
| Sally Jones, Pennaeth Cyfreithiol | 8 | 12 | 10 | 12 | | | | |
| Karen Morley, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol | 12 | 12 | 9 | 12 | 4* | 4 | 10 | 10 |
| Iain Dougall, Pennaeth Gweithrediadau | 9 | 12 | 11 | 12 | | | 7 | 10 |
| Angela Johnson, Pennaeth Goruchwylio, Ymarfer a Chydymffurfio | 11 | 12 | 12 | 12 | | | 5 | 10 |
| Ria Baxendale, Pennaeth Goruchwylio ac Ymchwiliadau (Mawrth 2016 ymlaen) | 1 | 1 | 1 | 1 | | | | |
| Chris Jones, Pennaeth Strategaeth a Datblygu Busnes | 8 | 12 | 11 | 12 | | | 9 | 10 |
| Sarah Wood, Cyfarwyddwr Anweithredol; Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg (hyd fis Mehefin 2015) | 3 | 3 | | | 2 | 2 | | |
| Dean Parker, Cyfarwyddwr Anweithredol; Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg (Gorffennaf 2015 ymlaen) | 7 | 10 | | | 2 | 2 | | |
| Janet Grossman, Cyfarwyddwr Anweithredol | 12 | 12 | | | | | 9 | 10 |
| Yr Athro Anthony Schapira, Cyfarwyddwr Anweithredol | 9 | 12 | | | 3 | 4 | | |
| Dr Elizabeth Gibby, Dirprwy Gyfarwyddwr y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Strategaeth a Pholisi Arbenigol | 8 | 12 | | | | | | |
| Steve Rider, Pennaeth Swyddfa'r Prif Weithredwr | 9 | 12 | | | | | | |

| | Bwrdd OPG | | Tîm Rheoli Gweithredol | | Pwyllgor Archwilio a Risg | | Pwyllgor Newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd** | **Nifer y cyfarfodydd cymwys** | **Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd** | **Nifer y cyfarfodydd cymwys** | **Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd** | **Nifer y cyfarfodydd cymwys** | **Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd** | **Nifer y cyfarfodydd cymwys** |
| Anne Fletcher, Aelod Annibynnol, y Pwyllgor Archwilio a Risg | | | | | 4 | 4 | | |
| Helen Journeaux, Prosiectau Strategol ac Arweinydd Polisi | | | | | | | 5 | 10 |
| Neil Campbell, Pennaeth Dros Dro Digidol | | | | | | | 3 | 3 |
| (Medi – Tachwedd 2016) | | | | | | | 3 | 3 |
| Jane Fallon, Pennaeth Digidol (Tachwedd 2016 ymlaen) | | | | | | | 9 | 10 |
| Liz Eaton, Grŵp Polisi y Weinyddiaeth Cyfiawnder | | | | | | | 9 | 9 |
| Jeannine Hoechx, Archwilio Mewnol a Sicrwydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder | | | | | | | | |

* Mae'r Prif Weithredwr/Gwarcheidwad Cyhoeddus a'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol yn mynychu'r Pwyllgor Archwilio a Risg drwy wahoddiad

## Cylch gorchwyl

Mae Cylch Gorchwyl OPG yn unol ag argymhellion y Cyngor Adrodd Ariannol yn 'Guidance on Board Effectiveness' (Mawrth 2011) a 'Good Governance Standard for Public Services', a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)/Office for Public Management Ltd (OPM), er mwyn sicrhau bod ei threfniadau llywodraethu wedi'u hadlewyrchu yn y cylch gorchwyl. Mae'r cylch gorchwyl yn sicrhau llywodraethu cyson ac eglur ym mhob rhan o'r busnes, bod llinellau clir ar gyfer penderfynu a bod perchnogaeth ac atebolrwydd cryf yn fframwaith llywodraethu cyffredinol OPG.

## Archwilio Mewnol

Fel Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr, rwyf wedi sefydlu a chynnal trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder o fewn OPG yn unol â'r amcanion a'r safonau ar gyfer archwilio mewnol sydd wedi'u datgan yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM).

Mae gan dîm Archwilio Mewnol a Sicrwydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder hawl i ddod i mewn i OPG i gefnogi cyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol fel Prif Swyddog Cyfrifyddu. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i weld holl lyfrau, cofnodion, data, asedau, personél ac eiddo ffisegol OPG y byddai'n ddymunol neu'n angenrheidiol eu gweld er mwyn cyflawni cyfrifoldebau OPG. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cael copïau o gynlluniau archwilio mewnol blynyddol ac adroddiad blynyddol OPG gennyf fi. Hysbysir y Weinyddiaeth Cyfiawnder am unrhyw dwyll neu afreolaidd-dra sy'n gyson â'r diffiniad sydd wedi'i bennu gan Drysorlys EM.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cyhoeddwyd 10 adroddiad terfynol ar gyfer gwaith yn ymwneud â 2015/16 a dau adroddiad terfynol yn ymwneud â gwaith o gynllun archwilio 2014/15. O blith y rhain, cafodd wyth adroddiad lefel sylweddol, cafodd dau adroddiad lefel gymedrol a chafodd dau adroddiad lefelau cyfyngedig. Ni nodwyd unrhyw wendidau o bwys yn unrhyw un o'r archwiliadau.


Ar sail y gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a gwybodaeth am drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolyddion mewnol OPG:

- Roedd Archwilio Mewnol yn darparu lefel sicrwydd **gymedrol**. Disgrifir hyn fel "Mae angen rhywfaint o welliannau er mwyn gwella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth".

## Rheoli risg, rheolaeth a sicrwydd


Mae OPG yn cynnal fframwaith rheoli risg yn unol â chanllawiau Trysorlys EM yn 'Managing Public Money' a 'Management of Risk – Principles and Concepts', a chanllawiau swyddogol sy'n cael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd. Mae'n gyson â Pholisi Rheoli Risg y Weinyddiaeth Cyfiawnder, gan uwchgyfeirio risgiau yn ôl yr angen. Mae Polisi Rheoli Risg OPG yn cynnwys strwythur sicrwydd, fframwaith sicrhau risg a gweithdrefn sicrhau risg OPG. Mae'n cwmpasu pob un o'r meysydd risg gan gynnwys sicrwydd gwybodaeth, parhad busnes, twyll, iechyd a diogelwch. Mae'r broses rheoli risg yn cael ei defnyddio ym mhob rhan o OPG i hybu arloesedd ac effeithlonrwydd.

# Strwythur Sicrwydd OPG




Mae OPG yn mabwysiadu'r agwedd 'tair llinell amddiffyn' ar gyfer y ffordd rydym yn rheoli risg, er mwyn sicrhau cydymffurfiad a galluogi sicrwydd effeithiol.

## Tair Llinell Amddiffyn



# Fframwaith Sicrhau Risg



Mae'r blas am risg yn OPG yn golygu ei bod yn ystyried ei hun yn sefydliad blaengar ac arloesol sy'n fwy parod i dderbyn a rheoli risg yn y meysydd hyn:

- darparu gwasanaeth gwell i gleientiaid
- moderneiddio a thrawsnewid OPG er lles y cwsmer
- codi ymwybyddiaeth o'i gwasanaethau er mwyn cyfleu delwedd gadarnhaol ac enw da
- cadw cydbwysedd rhwng grymuso a diogelu wrth gymell cleientiaid i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Mae OPG fel sefydliad sy'n gwrthwynebu risg yn llai parod i gymryd a rheoli risg yn y meysydd hyn:

- arfer pwerau a swyddogaethau statudol y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn effeithiol
- darparu system goruchwylio seiliedig ar risg ar gyfer dirprwyon a sicrhau bod mesurau diogelu ar gyfer oedolion agored i niwed i adnabod, atal a rhwystro cam-drin lle bo modd
- ei systemau rheoli a llywodraethu mewnol.

Mae cofrestr risg OPG yn tynnu sylw at y prif risgiau i'r gallu i gyflawni amcanion busnes OPG a gweithredu ei strategaethau'n llwyddiannus. Mae'r gofrestr hon ar gael ac yn cael ei diweddaru bob mis ochr yn ochr â chofrestru risg y maes busnes. Mae'n eitem ar agenda cyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Archwilio a Risg.

## Risgiau corfforaethol a reolwyd yn 2015/16

| Prif risgiau | Y prif gamau lliniaru |
|---|---|
| **Rheoli presenoldeb** | |
| Mae lefelau uchel o absenoldeb staff ar draws OPG yn cael effaith ddifrifol ar lefelau staffio (Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gollwyd) | Mae'r uwch dîm arwain wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb o geisio lleihau absenoldeb oherwydd salwch ledled OPG drwy weithgorau misol â chamau gweithredu manwl ac amserol fel a ganlyn:<br>• defnydd effeithiol o hyrwyddwyr rheoli presenoldeb i gefnogi rheolwyr drwy'r broses a rhoi cyngor ac arweiniad<br>• cyflwynodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder bolisi rheoli presenoldeb newydd yn Chwefror 2016; cyn ei gyflwyno sicrhaodd y grŵp bod pob rheolwr yn cael hyfforddiant wyneb yn wyneb er mwyn deall y prosesau newydd a sut i'w defnyddio'n ymarferol<br>• cyfathrebu'n rheolaidd â'r staff i gyd drwy gydol y cyfnod pontio a thrwy'r broses swyddogol o gyflwyno'r polisi newydd<br>• adroddiadau misol i'r Tîm Gweithredol Ffurfiol ar gynnydd o'i gymharu â chamau gweithredu a cherrig milltir<br>• cymeradwyaeth gan Fwrdd OPG i wneud cais am achrediad i 'siarter lles' sy'n cael ei redeg drwy awdurdodau lleol; bydd hyn yn parhau drwy gydol y flwyddyn ariannol nesaf |
| **Ystadau OPG** | |
| Y prosiect yn methu â chyflawni o fewn y fframiau amser a'r cyllidebau diwygiedig (wedi'u cynllunio).<br><br>Risg gyfreithiol y bydd lesoedd heb eu llofnodi ac y bydd gwaith yn cychwyn â risg.<br><br>Risg weithredol peidio â chael digon o le ar gyfer staff er mwyn prosesu, rhagweld a chynyddu llwythi gwaith. | Mae Prosiect Ystadau OPG wedi cyflawni'r canlynol:<br>• ailwampio ein hadeilad yn Birmingham er mwyn sicrhau'r cyfraddau meddiannaeth gorau posibl fel bod modd cyrraedd targedau perfformiad er bod y llwyth gwaith yn cynyddu<br>• adleoli o hen swyddfa aneffeithlon yn Nottingham i adeilad modern ac effeithlon, sy'n gallu cefnogi polisïau gweithio hyblyg parhaus yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r swyddfa hon hefyd yn gallu darparu ar gyfer yr angen i recriwtio rhagor o staff er mwyn cwrdd â gofynion cynyddol y busnes. |
| **Effaith yr adolygiad o wariant / Newid Strwythur y Weinyddiaeth Cyfiawnder** | |
| Gorfod atal yr holl wariant nad yw'n hanfodol ar brosiectau a rhaglenni; rhoi'r gorau i recriwtio a sicrhau rhagor o arbedion i bencadlys y Weinyddiaeth Cyfiawnder. | Mae ein Tîm Rheoli Newid wedi darparu achosion busnes manwl i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a Thrysorlys EM i gefnogi ein gwaith parhaus o ddarparu cynnyrch digidol i'n cwsmeriaid ac i'n staff er mwyn gwella'r gwasanaeth a gwerth am arian ein hamcanion.<br><br>Mae gan yr uwch dîm arwain bwyllgor gweithlu penodol sy'n sicrhau agwedd gyson at yr holl waith recriwtio, cynllunio olyniaeth, rheoli talentau a symudiadau mewnol mewn gwahanol rannau o OPG, sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol yng nghynlluniau rhewi recriwtio'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.<br><br>Paratoi adroddiadau misol i'r Tîm Gweithredu Ffurfiol er mwyn darparu Sicrwydd. |
| **Sirius/Cipio Dogfennau a Data (swyddogaeth rheoli achosion newydd)** | |
| Gweithrediadau yn methu â darparu gwasanaeth effeithlon, cywir neu o safon uchel o LPA cofrestredig ac yn methu â thrawsnewid y gwasanaethau presennol drwy ddarparu'n ehangach. | Diweddariadau/cyfarfodydd rheolaidd bob wythnos a phob mis gyda phob tîm ar draws y timau Digidol a'r timau Gweithrediadau er mwyn nodi a datrys problemau, gan ddefnyddio Bwrdd Trello penodol i gyd-drefnu'r holl weithgareddau i gefnogi gweithredu SIRIUS a chipio dogfennau a data.<br><br>Cynhaliwyd llawer o brofion a hyfforddiant i ddefnyddwyr drwy gydol y flwyddyn er mwyn cywiro problemau a diweddaru sgiliau staff gweithredol sy'n defnyddio SIRIUS i ddyrannu a rheoli achosion yr holl ffordd i'r cam cofrestru. |

## Gwrth-dwyll a llygredd

Mae gan OPG gynllun ymateb i dwyll, sydd wedi'i ategu gan Bolisi Gwrth-dwyll a Llygredd y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae gan OPG arbenigwr gwrth-dwyll achrededig sy'n aelod o'r Sefydliad Arbenigwyr Gwrth-dwyll, Grŵp Cydgysylltu Gwrth-dwyll y Weinyddiaeth Cyfiawnder, ac mae'n gallu manteisio ar yr arferion gorau ym mhob rhan o'r adran pan fydd angen.

Cynhaliwyd rhaglen dreigl o sesiynau ymwybyddiaeth o dwyll ar gyfer staff presennol a newydd. Cymerodd OPG ran hefyd mewn wythnos ymwybyddiaeth o dwyll a chwythu'r chwiban gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn Chwefror/Mawrth 2016. Yn ystod yr wythnos hon cynhaliodd OPG sesiynau i dros 300 o staff, ychwanegodd flog OPG at fewnrwyd y Weinyddiaeth Cyfiawnder a hwylusodd sesiwn 'cinio a dysgu' i staff y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn Llundain. Cyflawnodd hyn un o'r amcanion yng nghynllun gweithredu twyll y Weinyddiaeth Cyfiawnder, sef codi ymwybyddiaeth.

Ni chofnodwyd unrhyw achosion o dwyll allanol yn erbyn OPG yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Rhoddwyd gwybod am nifer o sgamiau; hysbyswyd Action Fraud am bob un o'r rhain ond ni chafwyd colled.

## Effeithiolrwydd trefniadau chwythu'r chwiban yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder/OPG

Ym Mawrth 2015, lansiodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder bolisi chwythu'r chwiban wedi'i ddiweddaru, er mwyn gwella'r cydymffurfiad presennol â chanfyddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2014. I gyd-fynd â'r polisi diwygiedig creodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder gronfa ddata ganolog i gofnodi achosion o chwythu'r chwiban ar draws grwpiau busnes. Mae'r system ganolog yn cynnig ffyrdd gwell o ddadansoddi patrymau a thracio cynnydd. Mae OPG yn mabwysiadau polisi a chanllawiau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac, o ganlyniad, ystyriodd effeithiolrwydd y polisi chwythu'r chwiban yn ei Bwyllgor Archwilio a Risg yn Ionawr 2016.

Mae gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder dri swyddog enwebedig, ac mae un ohonynt yn dod o OPG. Yn 2015/16, derbyniodd ac ymchwiliodd OPG i un achos chwythu'r chwiban a oedd yn ymwneud â dau aelod o staff OPG. Dysgwyd gwersi a hysbyswyd yr unigolyn a fynegodd y pryder bod yr ymchwiliad wedi cael ei gwblhau. Nid oedd yr achos yn ymwneud â throsedd, torri rhwymedigaethau cyfreithiol nac unrhyw fater arall yr oedd angen ei ddatgelu o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd.

Mae pryderon chwythu'r chwiban yn cael eu codi pan fydd Cod Ymddygiad y Gwasanaeth Sifil wedi'i dorri. Mesurwyd cwestiynau yn ymwneud â'r Cod, sut i fynegi pryder a hyder y bydd y materion hyn yn cael eu hymchwilio yn arolwg ymgysylltu â staff blynyddol y gwasanaeth sifil. Cafodd OPG sgôr o 84%, 63% a 63% yn y drefn honno. Mewn ymateb cynhaliodd OPG sesiynau ymwybyddiaeth o dwyll a chwythu'r chwiban ar gyfer dros 300 o staff yn ystod 2015/16. Bydd y rhain yn parhau yn 2016/17.

## Parhad busnes

Cafwyd un digwyddiad mawr yn Hydref 2015; cafodd ein safle yn Birmingham ei effeithio am gyfnod o wythnos oherwydd problemau gyda'r trydan. Achosodd hyn i ni golli dwy adain swyddfeydd i ddechrau, ac un adain yn ddiweddarach. Canlyniad hyn oedd bod tua 75 o staff wedi cael eu symud i rannau eraill o'n safle yn Birmingham. Defnyddiodd y tîm rheoli digwyddiadau a pharhad busnes y cynlluniau pwrpasol ar gyfer hynny. Llwyddasant i reoli'r digwyddiad yn effeithiol, gan gyfathrebu'n rheolaidd â'r holl staff drwy gydol yr wythnos.

Gan fod y digwyddiad hwn wedi cael ei reoli'n llwyddiannus, ni fu unrhyw effaith ar ein perfformiad wrth gyflawni'n hamcanion.

Mae gan dîm Llywodraethu a Sicrwydd OPG ddau ymarferydd parhad busnes hyfforddedig i gefnogi'r swyddogaeth hon. Mae OPG yn parhau i ddatblygu'r gallu i reoli'r risg o amhariad, gwella gwytnwch yn y presennol ac yn y dyfodol a chynnal cynlluniau ar gyfer digwyddiadau er mwyn helpu i adfer sefyllfaoedd.

## Diogelu a Sicrhau Gwybodaeth

Mae OPG wedi penodi Swyddog Arweiniol Gweithredol Sicrhau Gwybodaeth i gyflawni rôl yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth, gyda chymorth gan Bennaeth Gwybodaeth, Llywodraethu a Chyfleusterau penodedig. Mae dull OPG o weithredu'n gyson â pholisi llywodraeth ac yn cynnwys proses ddiogelu gwybodaeth, cofrestrau asedau, datganiad ar flas am risg ynghylch gwybodaeth a risgiau gwybodaeth cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y gofrestr risg gorfforaethol.

Pwrpas ein proses ymateb ar ôl digwyddiadau, a gyflwynwyd yn hydref 2012, yw nodi ac ymateb i unrhyw achosion o golli gwybodaeth. Mae'r broses yn cael ei monitro'n barhaus a chafodd ei hadolygu yn haf 2015.

Mae'r rheolaethau'n cynnwys:

- gweithdrefnau rheoli sy'n ymwneud yn benodol â diogelwch gwybodaeth a chyfrifoldebau staff
- cyfle i'r holl staff gael hyfforddiant ar ddiogelwch gwybodaeth â hyfforddiant adferol ychwanegol gorfodol pan fo angen
- tudalennau penodol ar fewnrwyd y staff sy'n rhoi cyngor ac arweiniad penodol ar faterion amrywiol yn ymwneud â sicrhau a diogelu gwybodaeth, gan gynnwys canllawiau ychwanegol ynglŷn â sut i ddosbarthu gwybodaeth yn ddiogel a 'rolau a chyfrifoldebau' staff sy'n ymdrin â gwybodaeth am gleientiaid
- rheolwyr sydd â chyfrifoldebau penodol dros ddiogelwch gwybodaeth wedi cael Ardystiad mewn Egwyddorion Rheoli Diogelwch Gwybodaeth (CISMP)
- cwblhau asesiadau risg gwybodaeth ac Asesiadau Effaith ar Breifatrwydd ar bob un o'n systemau TG allweddol a Rheolwr Prosiectau Data dynodedig wedi'i benodi i helpu'r busnes mewn cysylltiad â'r gwaith Trawsnewid TG sy'n mynd rhagddo
- polisi desg/man gwaith hyblyg clir.

## Digwyddiadau (colli/peryglu) gwybodaeth

Cofnodwyd 559 o ddigwyddiadau lle'r oedd gwybodaeth wedi'i cholli a/neu ei chamgyfeirio gan ddefnyddio proses rheoli digwyddiadau gwybodaeth OPG, sy'n llawer is na'r llynedd. Dangosodd yr adroddiad diwedd blwyddyn am y digwyddiadau hyn bod y rhan fwyaf (524) ym maes Gweithrediadau – Ceisiadau a Phrosesu. Mae nifer y digwyddiadau'n dal yn isel iawn ar y cyfan, ac yn cyfateb i lai na 0.086% o gyfanswm y gwaith (atwrneiaethau) a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn adrodd.

Parheir i ddarparu diweddariadau misol i uwch-reolwyr ar ddigwyddiadau fel y gallant herio effeithiolrwydd y rheolaethau ar brosesau. Cyflwynir adroddiadau chwarterol i swyddogion gweithredol meysydd busnes (y prif Berchnogion Asedau Gwybodaeth) i sicrhau bod meysydd/unigolion perthnasol yn parhau'n ymwybodol o'r wybodaeth y maent yn ei thrin a'i rheoli, a'u bod yn atebol amdani.


Nid oedd unrhyw ddigwyddiad yn ddigon pwysig i'w ddwyn i sylw'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Yn ystod 2015 cynhaliodd OPG ymarfer peilot gyda rhai o'i gyflenwyr, gan eu gwahodd i hunanasesu'r graddau yr oeddent yn cydymffurfio â gofynion disgwyliedig amrywiol y

llywodraeth. Yn dilyn llwyddiant y peilot, bydd y cynllun yn cael ei adnewyddu i gynnwys grŵp mwy o gyflenwyr yn ystod 2016/17.

## Swyddog Cyfrifyddu

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol OPG, gan gynnwys y fframwaith rheoli risg. Wrth gynnal fy adolygiad, rwyf yn ystyried gwaith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn OPG. Maent yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, ac am y sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill. Yn eu hadroddiad blynyddol, mae ein harchwilwyr mewnol wedi rhoi sicrwydd cyffredinol bod lefel 'gymedrol' o sicrwydd gan OPG. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi rhoi gwybod i mi am y goblygiadau sy'n codi o'r adolygiad hwn. Rwyf wedi fy modloni bod cynllun ar waith yn awr i ymdrin â gwendidau yn y system rheolaeth fewnol, a sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus. Rwyf wedi fy modloni hefyd fod yr holl risgiau perthnasol wedi'u nodi a'u rheoli'n briodol, a bod y risgiau hynny'n cael eu rheoli'n briodol.



**Alan Eccles CBE**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

# Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff

## Contractau gwasanaeth

Yn unol â Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 rhaid i benodiadau i'r Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud yn ôl teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi ym mha amgylchiadau y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae'r swyddogion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn dal penodiad penagored. Pe bai penodiad yn cael ei derfynu'n gynnar, heblaw mewn achosion o gamymddwyn, byddai'r unigolyn yn derbyn digollediad yn unol â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

Penodwyd cyfarwyddwyr anweithredol ar gontract tymor penodol o dair blynedd.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.gov.uk

## Polisi cydnabyddiaeth ariannol

Mae'r gydnabyddiaeth ariannol i uwch weision sifil yn cael ei phennu gan y Prif Weinidog gan ddilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion.

Mae cyflogau i aelodau gweithredol y bwrdd yn cael eu pennu gan Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, yn unol â'r rheolau ym mhennod 7.1 o Atodlen A i god rheoli'r gwasanaeth sifil.

Wrth benderfynu ar ei argymhellion, mae'r corff adolygu'n ystyried y materion canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw ac ysgogi, a lle bo'n berthnasol, i ddyrchafu pobl alluog a chymwys sy'n addas i arfer eu gwahanol gyfrifoldebau
- amrywiadau rhanbarthol/lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffeithiau ar y gallu i recriwtio, cadw a, lle bo'n berthnasol, ddyrchafu staff
- polisïau'r llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gofyniad i adrannau gwrdd â'r targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol
- yr arian sydd ar gael i adrannau sydd wedi'i nodi yn nherfynau gwariant adrannol y llywodraeth
- targed y llywodraeth ar gyfer chwyddiant.

Mae'r corff adolygu'n ystyried y dystiolaeth y mae'n ei chael am ystyriaethau economaidd ehangach a'r gallu i fforddio ei argymhellion.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys:

- y cyflog gros
- goramser
- hawliau neilltuedig ar gyfer pwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain
- lwfansau recriwtio a chadw
- lwfansau swyddfa breifat
- unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n agored i'w drethu yn y DU.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar daliadau a wnaed gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar ran OPG ac felly mae wedi'i gofnodi yn y cyfrifon hyn. Mae'r tablau yn yr adroddiad cydnabyddiaeth ariannol hwn wedi cael eu harchwilio.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau'n cynnwys unrhyw fuddion a ddarparwyd gan yr adran a'u trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy.

## Bonysau

Mae bonysau'n seiliedig ar lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd ac maent yn cael eu gwneud fel rhan o'r broses arfarnu. Mae bonysau'n gysylltiedig â'r perfformiad yn y flwyddyn y daethant yn daladwy i'r unigolyn. Mae'r bonysau yr adroddir amdanynt yn 2015/16 yn gysylltiedig â pherfformiad yn 2014/15 ac mae'r bonysau cymharol yr adroddir amdanynt ar gyfer 2014/15 yn gysylltiedig â pherfformiad yn 2013/14.

## Hawliau cyflog a phensiwn

Yn yr adrannau sy'n dilyn mae manylion am dâl a buddion pensiwn yr aelodau o Fwrdd OPG.

## Cydnabyddiaeth ariannol

| | 2015/16 | | | | | 2014/15 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodau | Cyflog £000 | Taliadau bonws £000 | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | Buddion pensiwn £000 | Cyfanswm £000 | Cyflog £000 | Taliadau bonws £000 | Buddion mewn nwyddau £100) | Buddion pensiwn £000 | Cyfanswm £000 |
| Alan Eccles CBE, Prif Weithredwr a Gwarcheidwad Cyhoeddus | 110–115 | - | - | 54 | 165–170 | 110–115 | - | - | 54 | 165–170 |
| Karen Morley, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol | 55–60 | - | - | 25 | 80–85 | 55–60 | 0–5 | - | 15 | 75–80 |
| Angela Johnson, Pennaeth Goruchwylio, Ymarfer a Chydymffurfio | 50–55 | 0–5 | - | 20 | 70–75 | 55–60 | 0–5 | - | 18 | 75–80 |
| Iain Dougall, Pennaeth Gweithrediadau | 65–70 | - | - | 26 | 90–95 | 65–70 | - | - | 25 | 90–95 |
| Chris Jones, Pennaeth Strategaeth a Datblygu Busnes (22/04/14 ymlaen) | 60–65 | - | - | 27 | 85–90 | 60–65 (60–65 cyfwerth â blwyddyn lawn) | - | - | 10 | 70–75 |
| Ria Baxendale, Pennaeth Goruchwylio ac Ymchwiliadau (01/03/2016 ymlaen) | 0–5 (55–60 cyfwerth â blwyddyn lawn | - | - | 2 | 5–10 | n/a | Amh | Amh | Amh | Amh |
| Elizabeth Gibby, Dirprwy Gyfarwyddwr y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Strategaeth Mynediad at Gyfiawnder a Pholisi Arbenigol | n/a | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh |
| Sarah Wood (hyd 30/06/15) | 0–5 (5–10 cyfwerth â blwyddyn lawn) | - | - | - | 0–5 | 5–10 | - | - | - | 5–10 |
| Dean Parker (hyd 01/07/2015) | 0–5 (5–10 cyfwerth â blwyddyn lawn | - | - | - | 0–5 | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh |
| Yr Athro Anthony Schapira | 5–10 | - | - | - | 5–10 | 5–10 | - | - | - | 5–10 |
| Janet Grossman | 5–10 | - | - | - | 5–10 | 5–10 | - | - | - | 5–10 |
| **Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr uchaf ei dâl (£000)** | **110–115** | | | | | **110–115** | | | | |
| **Cyfanswm tâl canolrifol OPG (£)** | **20,036** | | | | | **20,224** | | | | |
| **Cymhareb** | **5.6** | | | | | **5.6** | | | | |

Ymddeolodd Angela Johnson yn rhannol ar ôl 1 Ionawr 2016. Daeth Ria Baxendale yn gyfrifol am oruchwylio ac ymchwiliadau ar 1 Mawrth 2016. Elizabeth Gibby yw cynrychiolydd dynodedig y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar y Bwrdd. Oherwydd hynny, nid yw ei chyflog yn ymwneud ag unrhyw rôl sylweddol yn OPG ac nid yw i gael ei ddatgelu.

Mae'r wybodaeth yn y tabl uchod wedi'i harchwilio.

## Datgeliad cyflog teg [1]

Mae'n ofynnol bod cyrff adrodd yn datgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr uchaf ei dâl yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr uchaf ei dâl yn OPG ym mlwyddyn ariannol 2015/16 oedd £110–115k (2014/15: £110–115). Roedd hyn yn 5.6 gwaith (2014/15: 5.6 gwaith) y tâl canolrifol i'r gweithlu, a oedd yn £20,035 (2014/15: £20,224).

Yn 2015/16, derbyniodd 6 aelod o'r gweithlu (2014/15: 0 aelod o'r gweithlu) dâl uwch na'r cyfarwyddwr uchaf ei dâl. Roedd y taliadau'n amrywio o £117,000 i £140,000.

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog, tâl cysylltiedig â pherfformiad sydd heb ei gyfuno a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na'r gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod (CETV) ar gyfer pensiynau.

## Digolledio am golli swydd[1]

Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau digolledu yn 2015/16 (2014/15: dim) am ymddeol yn gynnar neu golli swydd.

[1] Mae'r wybodaeth sydd yn yr adran hon wedi'i harchwilio

## Buddion pensiwn

| Aelodau | Swm a gronnwyd erbyn oed pensiwn ar 31/3/16 a'r cyfandaliad cysylltiedig | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig erbyn cyrraedd oed pensiwn | CETV ar 31/3/16 | CETV ar 31/3/15 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV | Cyfraniad y cyflogwr i'r cyfrif pensiwn partneriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £100 agosaf |
| Alan Eccles CBE, Prif Weithredwr a Gwarcheidwad Cyhoeddus | 70–75 | 2.5–5 | 1,307 | 1,164 | 48 | - |
| Karen Morley, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol | 20–25 ynghyd â chyfandaliad o 60–65 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0–2.5 | 378 | 333 | 12 | - |
| Angela Johnson, Pennaeth Ymarfer a Chydymffurfio | 25–30 | 0–2.5 | 521 | 464* | 20 | - |
| Iain Dougall, Pennaeth Gweithrediadau | 15–20 | 0–2.5 | 244 | 202 | 20 | - |
| Chris Jones, Pennaeth Strategaeth a Datblygu Busnes (22/04/14 ymlaen) | 10-15 | 0–2.5 | 135 | 110 | 7 | - |
| Ria Baxendale, Pennaeth Goruchwylio ac Ymchwiliadau (01/03/2016 ymlaen) | 10–15 | 0–2.5 | 108 | 93 | 9 | - |

Mae'r wybodaeth sydd yn yr adran hon wedi'i harchwilio.

* Mae'r swm hwn yn wahanol i adroddiad y flwyddyn flaenorol oherwydd cyfrifiad diwygiedig a ddarparwyd gan y gweinyddwr pensiynau.

Ar 16 Mawrth 2016, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys newid yng nghyfradd ostyngiadau SCAPE (Superannuation Contributions Adjusted for Past Experience) o 3% i 2.8%. Mae'r gyfradd hon yn effeithio ar y ffigurau CETV a gyfrifwyd yn yr adroddiad hwn.

### Pensiynau'r gwasanaeth sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. Ar 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu 'alpha', sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa ag oed pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oed Pensiwn Gwladol yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). Ar ôl y dyddiad hwnnw roedd pob gwas sifil newydd, a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd mewn gwasanaeth yn barod, yn ymuno ag alpha. Cyn hynny, roedd gweision sifil yn cyfranogi o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair rhan: 3 sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) ag oed pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) ag oed pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, ac mae costau'r buddion yn cael eu talu ag arian a ddyfarnwyd gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Gall aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 aros yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y

rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 blynedd a 5 mis o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Bydd buddion PCSPS pob aelod a fydd yn newid i alpha yn cael eu 'bancio', ac yn achos y rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS bydd y buddion hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha y swm a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis un ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu ag arian' gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau'r cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o'r enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau'r cynllun classic (ac aelodau o alpha a oedd yn aelodau o classic yn union cyn ymuno ag alpha) a rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau cynlluniau premium, classic plus, nuvos a holl aelodau eraill alpha. Mae buddion yn y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, mae cyfandaliad cyfwerth â thair blynedd o'r pensiwn cychwynnol yn daladwy ar ôl ymddeol. Ar gyfer y cynllun premium, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Cynllun hybrid yw classic yn y bôn lle mae buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn yr un ffordd yn fras â'r cynllun classic, a buddion o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn yr un ffordd â'r cynllun premium. Yn y cynllun nuvos, mae'r aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd y flwyddyn gynllun (31 Mawrth), mae cyfrif pensiwn yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn gynllun honno ac mae'r pensiwn yn cael ei uwchraddio'n unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion yn alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ond bod y gyfradd gronni yn 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau sydd wedi'u gosod yn Neddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol sydd rhwng 3% a 12.5% hyd at 30 Medi 2015 a rhwng 8% ac 14.75% o 1 Hydref 2015 (yn ôl oed yr aelod) at gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid sydd wedi'i ddewis gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, wrth roi cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu swm cyfartal hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.8% pellach o'r cyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 a 0.5% o'r cyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015 i dalu am gost yswiriant am risg i fuddion a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol oherwydd afiechyd).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnwyd yw'r pensiwn y bydd gan yr aelod hawl i'w gael wrth gyrraedd yr oed pensiwn, neu'n union ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd yr oedran pensiwn neu'n hŷn nag ef. 60 yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau'r cynlluniau classic, premium a classic plus, a 65 ar gyfer aelodau nuvos, a pha un bynnag yw'r uchaf, 65 neu'r Oedran Pensiwn Gwladol, ar gyfer aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha y swm a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedran gwahanol.)

Mae rhagor o fanylion ar gael am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**.

## Gwerthoedd trosglwyddo sy’n gyfwerth ag arian parod

Gwerth Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth y buddion mewn cynllun pensiwn wedi’u cyfalafu ar sail asesiad gan actiwari sydd wedi’u cronni gan yr aelod ar bwynt penodol mewn amser. Y buddion a brisiwyd yw’r buddion sydd wedi’u cronni gan yr aelod ac unrhyw bensiwn digwyddiadol i briod sy’n daladwy o’r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall os bydd aelod yn gadael y cynllun ac yn dewis trosglwyddo’r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae’r ffigurau pensiwn a ddangoswyd yn ymwneud â’r buddion y mae’r unigolyn wedi’u cronni o ganlyniad i’w holl gyfnod yn aelod o’r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth yn y swydd uwch y mae’r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae’r ffigurau’n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae’r unigolyn wedi’u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol y mae’r aelod wedi’u cronni o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Mae CETV yn cael eu cyfrifo’n unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 heb ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ddichonol mewn buddion o ganlyniad i Dreth Lwfans am Oes a all fod yn ddyledus pan gymerir y buddion pensiwn.

## Cynnydd real mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu’r cynnydd yn y CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw’n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae’n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Adroddiad Staff

| | 2015/16 | | | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | | | £000 |
| **Costau staff** | **Cyfanswm** | **Staff a gyflogir yn barhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** |
| Taliadau a chyflogau | 27,191 | 22,943 | 4,248 | 22,305 |
| Cyfraniadau yswiriant gwladol sy'n seiliedig ar enillion | 1,320 | 1,320 | - | 987 |
| Costau pensiwn eraill | 3,988 | 3,988 | - | 2,484 |
| **Cyfanswm costau net** | **32,499** | **28,251** | **4,248** | **25,776** |

Mae'r wybodaeth yn y tabl uchod wedi'i harchwilio.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "alpha" yn gynlluniau buddion diffiniedig nad ydynt yn cael eu hariannu ar gyfer nifer o gyflogwyr, ond nid yw OPG yn gallu pennu ei chyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad llawn gan actiwari ar 31 Mawrth 2012. Mae manylion ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet o dan 'Civil Superannuation'.

Ar gyfer 2015/16, roedd cyfraniadau cyflogwr o £3,916,000 yn daladwy i'r PCSPS (2014/15 £2,484,000) ar un o bedair cyfradd rhwng 20.0% a 24.5% o'r enillion pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd fel arfer ar ôl cynnal prisiad llawn o'r cynllun. Pennwyd y cyfraddau cyfrannu er mwyn talu cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2015/16 sydd i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i'r pensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn **partneriaeth**, pensiwn cyfranddeiliaid â chyfraniad gan gyflogwr. Talwyd gwerth £72,000 o gyfraniadau cyflogwyr i un neu ragor o'r panel o dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran, ac yn amrywio o 3% i 12.5% o'r enillion pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 ac o 8% i 14.75% o'r enillion pensiynadwy hyd at 1 Hydref 2015. Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau gweithwyr hyd at 3% o'r enillion pensiynadwy.

### Niferoedd staff

Roedd nifer cyfartalog y personau cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2015/16 | | | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | **Cyfanswm** | **Staff parhaol** | **Arall** | **Cyfanswm** |
| Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol | 984 | 984 | - | 707 |
| Arall | 87 | - | 87 | 158 |
| **Cyfanswm** | **1,071** | **984** | **87** | **865** |

Mae'r wybodaeth yn y tabl uchod wedi'i harchwilio.

## Cyfansoddiad y staff

| | Dynion | Merched |
|---|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd | 3 | 3 |
| SCS1 | 0 | 1 |
| Gweithwyr OPG (heb gynnwys SCS) | 465 | 629 |

Mae'r tabl cyfansoddiad staff uchod yn dangos nifer y staff a oedd mewn swyddi ar 31 Mawrth 2016. Mae aelodau'r bwrdd yn cynnwys 1 dyn SCS2 (nad yw wedi'i gynnwys ar y rhes SCS).

### Absenoldeb oherwydd salwch

Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gollwyd eleni oedd 8.7 niwrnod, sy'n fwy na'n targed o 7.5 niwrnod. Rydym wedi dechrau cymryd camau i fynd i'r afael â'r broblem hon yn barod:

- cyflwynasom bolisi rheoli absenoldeb diwygiedig yn Chwefror 2016. Derbyniodd pob rheolwr llinell hyfforddiant ar y polisi newydd a chafodd y staff i gyd eu briffio ynglŷn â'r polisi newydd. Rydym yn disgwyl y bydd y polisi newydd yn cael effaith gadarnhaol a byddwn yn parhau i fonitro canlyniadau
- rydym yn datblygu rhaglen "lles yn y gwaith" a fydd yn canolbwyntio ar iechyd meddwl.

## Polisïau staff a roddwyd ar waith yn ystod y flwyddyn

Mae OPG yn cydymffurfio â pholisi anabledd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yng nghyswllt recriwtio, hyfforddi a datblygu staff sydd ag anabledd. Rydym yn recriwtio, hyfforddi a datblygu pobl ar sail eu sgiliau, eu doniau a'u gallu i wneud y gwaith.

Fel rhan o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, rydym yn gweithredu yn unol ag amryw o bolisïau adnoddau dynol, gweithdrefnau ac arferion sy'n ategu ac yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae gan y polisïau a ganlyn i gyd elfennau penodol sydd wedi cael eu rhoi ar waith:

- gweithio hyblyg
- bwlio ac aflonyddu
- cyfryngu
- recriwtio a dewis staff
- cydraddoldeb ac amrywiaeth
- rheoli presenoldeb (mae gennym nifer o staff ag anabledd a chytunwyd ar addasiadau rhesymol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau)
- rheoli perfformiad
- hyfforddiant.

## Gwariant ar ymgynghorwyr

Ni chyflogwyd unrhyw ymgynghorwyr gan OPG yn ystod 2015/16.


## Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres

| Crynodeb o ymrwymiadau oddi ar y gyflogres 2015/16 | Aelodau o'r gweithlu |
|---|---|
| Llai na blwyddyn | 10 |
| Rhwng un a dwy flynedd | 6 |
| **Cyfanswm** | **16** |

Gwnaethpwyd asesiad risg ar gyfer pob un o'r penodiadau uchod i sicrhau bod y dreth gywir yn cael ei thalu.

## Adrodd ar gynlluniau digolledu'r gwasanaeth sifil a chynlluniau digolledu eraill – pecynnau ymadael

Ni thalwyd unrhyw becynnau ymadael yn 2015/16 (2014/15: Dim). Mae'r wybodaeth hon wedi'i harchwilio.



**Alan Eccles CBE**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

# Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio

## Datganiad ar y Cyflenwad Seneddol

Mae OPG yn cael ei hariannu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, o'i Chyflenwad Seneddol, a thrwy incwm o ffioedd a thaliadau a godir ar gwsmeriaid allanol.

Yn yr un modd ag asiantaethau llywodraeth eraill, rhaid i gyllid ar gyfer y dyfodol gael ei gymeradwyo gan yr adran sy'n ein noddi, y Weinyddiaeth Cyfiawnder, a chan y Senedd. Rhoddwyd cymeradwyaeth yn barod ar gyfer 2016/17 ac nid oes rheswm dros gwestiynu'r arian ar gyfer OPG yn y dyfodol. Felly mae datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes hyfyw i ddibenion adroddiadau ariannol a phrisio asedau.

## Rheoleidd-dra gwariant

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi dynodi Prif Weithredwr OPG yn Swyddog Cyfrifyddu i'r asiantaeth. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau OPG, yn 'Managing Public Money' a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

## Ffioedd a thaliadau

Mae'n ofynnol bod yr asiantaeth, yn unol â 'Managing Public Money', yn datgelu canlyniadau ar gyfer meysydd y gweithgareddau yr ymgymerwyd â nhw drwy gydol y flwyddyn ariannol, lle codwyd ffioedd a thaliadau.

Cytunodd Gweinidogion a Thrysorlys EM ar strategaeth ffioedd i OPG a oedd yn golygu adennill 100% o'r costau. Roedd y strategaeth hon wedi'i hadlewyrchu yn y ddau offeryn statudol a chafodd ei rhoi ar waith o 1 Hydref 2007.

Darperir cymhorthdal fel y bwriadwyd i sicrhau na fydd cleientiaid yn methu â chael gwasanaethau am nad ydynt yn gallu fforddio'r ffioedd sy'n ofynnol.

| | 2015/16<br>£000 | 2014/15<br>£000 |
|---|---|---|
| Incwm gweithredu | (65,857) | (51,411) |
| Ffioedd a oedd heb eu codi | (6,762) | (6,132) |
| **Cyfanswm incwm** | **(72,619)** | **(57,543)** |
| **Cyfanswm gwariant** | **53,321** | **40,293** |
| **Diffyg/(gwarged)** | **(19,298)** | **(17,250)** |
| **Costau a adenillwyd (%)** | **136%** | **143%** |

Roedd yr amcan ariannol y cytunwyd arno â Thrysorlys EM o adennill yr holl gostau (heb gynnwys ffioedd sydd wedi'u hesemptio neu heb eu codi) wedi'i gyflawni a rhagorwyd arno gan gyrraedd 136% yn 2015/16, gostyngiad pellach o'r 143% a gyrhaeddwyd yn 2014/15.

Fel y nodwyd y llynedd, roedd hyn wedi'i ragweld gan nad oedd modd newid ein ffioedd yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi llwyddo i fuddsoddi swm sylweddol o adnoddau a gwella ansawdd ein gwasanaethau.

Mae trafodaethau'n cael eu cynnal rhwng y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Thrysorlys EM er mwyn adolygu'r amcan ariannol a diwygio'n strwythur ffioedd os oes angen cyn gynted ag y bo modd.

## Colledion a thaliadau arbennig

Mae'r wybodaeth yn yr adran hon wedi'i harchwilio.

### Ffioedd a oedd heb eu codi

Roedd 76,253 o achosion lle na chodwyd ffioedd neu lle'r oedd esemptiadau'n gymwys. Cyfanswm y gwerth oedd £6,762,000 (2014/15: 67,810 o achosion – £6,132,000 fel y maent wedi'u disgrifio yn nodyn 2).

### Colledion arian parod

Roedd un achos lle'r oedd colledion arian parod o gyfanswm o £14 (2014/15: 1 achos – colledion o £37).

### Taliadau arbennig a hepgor ffioedd

Roedd 205 o daliadau arbennig a oedd yn dod i gyfanswm o £10,000 (2014/15: 179 o daliadau arbennig, yn dod i gyfanswm o £12,000) yng nghyswllt setliadau digolledu a chysuro.

Hepgorwyd 3,042 o ffioedd a oedd yn dod i gyfanswm o £386,000 (2014/15: 4,382 o achosion, yn dod i gyfanswm o £473,000). Mae ffi'n cael ei hepgor un ai:

- yn unol â'r offeryn statudol pan nad yw'r rhoddwr/cleient yn gymwys i gael esemptiad neu i beidio â chael codi ffi arno ond y byddai talu'r ffi, ym marn y Gwarcheidwad Cyhoeddus, yn achosi caledi gormodol
- i gydnabod camweinyddu.

## Rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol iawn

Yn unol ag IAS 37, mae'r asiantaeth yn datgelu ar ffurf rhwymedigaethau digwyddiadol unrhyw ymrwymiadau dichonol a all godi yn y dyfodol o ganlyniad i ddigwyddiadau ymrwymo yn y gorffennol, lle mae bodolaeth ymrwymiadau o'r fath yn parhau'n ansicr wrth ddisgwyl y canlyniad i ddigwyddiadau yn y dyfodol sydd y tu hwnt i reolaeth yr asiantaeth, oni bai ei bod yn cael ei hystyried yn annhebygol iawn y byddant yn codi. Mae gwarantau, indemniadau ac ymgymeriadau nad ydynt yn gontractau gwarant ariannol o dan IAS 39 yn cael eu trin fel rhwymedigaethau digwyddiadol.

Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol sy'n cael eu datgelu'n unol ag IAS 37, mae'r asiantaeth hefyd yn datgelu i ddibenion adroddiadau ac atebolrwydd i'r Senedd rwymedigaethau digwyddiadol penodol lle mae'n annhebygol iawn y bydd buddion economaidd yn cael eu trosglwyddo.

Lle mae'r gwerth amser sydd mewn arian yn berthnasol, mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn cael eu datgan ar ffurf symiau wedi'u disgowntio. Nid yw rhwymedigaethau digwyddiadol y mae angen adrodd arnynt i'r Senedd yn cael eu disgowntio.



**Alan Eccles CBE**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

## Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Senedd

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian, Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u nodi ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff a'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol y nodwyd yn yr adroddiadau hyn eu bod wedi'u harchwilio.

### Priod gyfrifoldebau'r Bwrdd, y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurwyd yn fwy helaeth yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi darlun teg a chywir. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Wrth gynnal archwiliad cymerir camau i gael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n addas i amgylchiadau Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu o bwys sydd wedi'u gwneud gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus; a'r dull cyffredinol o gyflwyno'r datganiadau ariannol.

Yn ogystal â hyn, rwyf wedi darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i ganfod anghysonderau o bwys â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i ganfod unrhyw wybodaeth sydd i'w gweld yn anghywir o'i hanfod, neu'n anghyson o'i hanfod, ar sail y wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad. Os byddaf yn dod i wybod am unrhyw beth sy'n ymddangos yn gamddatganiad neu'n anghysonder o bwys, byddaf yn ystyried y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael gwybodaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio i'r dibenion sydd wedi'u bwriadu gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob mater o bwys mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn am y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar 31 Mawrth 2016 ac o'r gwarged gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol a ddyroddwyd o dani.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff a'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol a oedd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion yr wyf yn adrodd amdanynt fel eithriad yn unig

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol, y byddaf yn adrodd amdanynt os credaf:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw na bod datganiadau digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn oddi wrth ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff a'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion cyfrifyddu a'r datganiadau; neu
- na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen er mwyn archwilio; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n dangos cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

**Dyddiad:**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiadau ariannol

| Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 | Nodyn | 2015/16 £000 | 2014/15 £000 |
|---|---|---|---|
| Rhaglen: | 7 | | |
| Costau staff | 3 | 32,499 | 25,776 |
| Gwariant arall | 4/5 | 20,822 | 14,517 |
| Incwm | 2/6 | (65,857) | (51,411) |
| Gwarged gweithredu net | | (12,536) | (11,118) |

| Gwariant Net Cynhwysfawr Arall | Nodyn | 2015/16 £000 | 2014/15 £000 |
|---|---|---|---|
| (Enillion) / colledion net ar ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | 147 | (48) |
| Colledion net ar ailbrisio asedau anniriaethol | 8a | - | 7 |
| Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr | | (12,389) | (11,159) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 61 i 78 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

| **Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2016** | **Nodyn** | **31 Mawrth 2016** | | **31 Mawrth 2015** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | | 4,218 | | 1,065 |
| Asedau anniriaethol | 8a | | 5,792 | | 7,982 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | | **10,010** | | **9,047** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 9 | 46,100 | | 35,419 | |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 10 | 5,879 | | 1,356 | |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | | **51,979** | | **36,775** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | | **61,989** | | **45,822** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill | 11 | (8,013) | | (3,144) | |
| Darpariaethau | 12 | (230) | | (230) | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(8,243)** | | **(3,374)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **53,746** | | **42,448** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau | 12 | | (119) | | (119) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | | **(119)** | | **(119)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau** | | | **53,627** | | **42,329** |
| **Ecwiti'r trethdalwyr** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | | 53,385 | | 41,940 |
| Cronfa ailbrisio | | | 242 | | 389 |
| **Cyfanswm ecwiti'r trethdalwyr** | | | **53,627** | | **42,329** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 61 i 78 yn rhan o'r cyfrifon hyn.



**Alan Eccles CBE**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

| OPG – Datganiad o'r Llifau Arian am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 | Nodyn | 2015/16 £000 | 2014/15 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwarged am y flwyddyn | | 12,536 | 11,118 |
| Taliadau eraill nad ydynt yn arian parod | 5 | 6,053 | 3,822 |
| Costau gweithredu eraill nad ydynt yn arian parod | 4 | 1,204 | 1,184 |
| Symiau eraill nad ydynt yn arian parod | | 11 | 14 |
| | | **19,804** | **16,138** |
| Cynnydd mewn symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | | (10,971) | (11,417) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill | | 3,434 | (63) |
| Defnydd o ddarpariaethau wedi'u setlo gan OPG | 12 | 0 | (188) |
| **Mewnlifau arian net o weithgareddau gweithredu** | | **12,267** | **4,470** |
| **Llifau arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | (146) | - |
| Prynu asedau anniriaethol | | (1,848) | (4,361) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(1,994)** | **(4,361)** |
| **Llifau arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Trosglwyddo o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | | (5,750) | (1,664) |
| **Ariannu net** | | **(5,750)** | **(1,664)** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod** | 10 | **4,523** | **(1,555)** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod** | 10 | **1,356** | **2,911** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod** | 10 | **5,879** | **1,356** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau <OV> i <OV> yn rhan o'r cyfrifon hyn.

| Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 | Nodyn | Cronfa Gyffredinol £000 | Cronfa Ailbrisio £000 |
|---|---|---|---|
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2015** | | **41,940** | **389** |
| **Enillion/(colledion) net ar ailbrisio:** | | | |
| Ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | | - | (147) |
| Ailbrisio asedau anniriaethol | | - | - |
| **Taliadau nad ydynt yn arian parod** | | | |
| Tâl yr archwilydd | 5 | 52 | - |
| Costau wedi'u setlo gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder | 4 | 1,204 | - |
| Elfen dybiannol o daliadau a ailgodwyd gan yr adran | 5 | 3,392 | - |
| Symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn y Weinyddiaeth Cyfiawnder | | (5,750) | - |
| Arall | | 11 | - |
| **Gwarged net am y flwyddyn** | | **12,536** | **-** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2016** | | **53,385** | **242** |

| Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 | Nodyn | Cronfa Gyffredinol £000 | Cronfa Ailbrisio £000 |
|---|---|---|---|
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2014** | | **28,762** | **348** |
| **Enillion/(colledion) net ar ailbrisio:** | | | |
| Ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | | - | 48 |
| Ailbrisio asedau anniriaethol | | - | (7) |
| **Taliadau nad ydynt yn arian parod** | | | |
| Tâl yr archwilydd | 5 | 52 | - |
| Costau wedi'u setlo gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder | 4 | 1,184 | - |
| Elfen dybiannol o daliadau a ailgodwyd gan yr adran | 5 | 2,505 | - |
| Symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn y Weinyddiaeth Cyfiawnder | | (1,664) | - |
| Arall | | (17) | - |
| **Gwarged net am y flwyddyn (Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net)** | | **11,118** | **-** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2015** | | **41,940** | **389** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau <OV> i <OV> yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

Am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail y paratoi

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi yn unol â gofynion llawlyfr adroddiadau ariannol y llywodraeth (LlAALl) 2015/16 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd yn LlAALl yn cymhwyso safonau rhyngwladol ar adroddiadau ariannol fel y maent wedi'u haddasu neu eu dehongli yng nghyd-destun y sector cyhoeddus.

Lle y mae LlAALl yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf addas i amgylchiadau penodol yr asiantaeth er mwyn rhoi darlun teg a chywir. Mae polisïau cyfrifyddu'r asiantaeth wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau y credwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Heb gyfyngu'r wybodaeth a roddwyd, mae'r cyfrifon yn cwrdd â'r gofynion am gyfrifyddu a datgelu yn y Ddeddf Cwmnïau a'r safonau cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi neu eu mabwysiadu gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu a Thrysorlys EM i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n briodol.

Nid yw'r datganiad o wariant net cynhwysfawr wedi'i rannu rhwng gwariant net ar weinyddu a gwariant net ar raglenni gan fod y cyfan o wariant net OPG wedi'i gategoreiddio'n wariant rhaglenni, ar sail asesiad o'r gwaith a gyflawnwyd gan OPG, sy'n wasanaethau rheng flaen gan mwyaf. Cytunwyd ar y dosbarthiad hwn â Thrysorlys EM.

Mae OPG wedi asesu'r newidiadau arfaethedig yn LlAALl ar gyfer 2015/16, ac unrhyw safonau cyfrifyddu newydd a gyhoeddwyd nad ydynt mewn grym eto, ac wedi penderfynu na fyddai effaith sylweddol ar ei chyfnod cyfredol neu flaenorol nac ar gyfnod yn y dyfodol.

### 1.2 Busnes hyfyw

Mae'r asiantaeth yn cael ei hariannu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, o'i Chyflenwad Seneddol a chan incwm a geir o ffioedd a thaliadau oddi wrth gwsmeriaid allanol (gweler nodyn 2). Yn yr un modd ag asiantaethau llywodraeth eraill, rhaid i'r adran sy'n ein noddi a'r Senedd gymeradwyo ein cyllid yn y dyfodol.
Mae cyllid wedi'i gymeradwyo eisoes ar gyfer 2016/17 ac mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi ar sail busnes hyfyw i ddibenion adroddiadau ariannol a phrisio asedau.

### 1.3 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi ar sail croniadau, o dan y confensiwn costau hanesyddol wedi'i addasu i roi cyfrif am ailbrisio asedau anghyfredol.

### 1.4 Cydnabod incwm

**Incwm gweithredu**

Mae incwm gweithredu'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu OPG. Yn bennaf mae'n cynnwys ffioedd a thaliadau am wasanaethau a ddarparwyd ar sail costau llawn i gwsmeriaid allanol, net o ffioedd nas codwyd (gweler nodyn 1.5) ac yn net o TAW.

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu ar gyfer codi ffioedd mewn perthynas ag achosion sydd wedi'u dwyn mewn cysylltiad â'r swyddogaethau a gyflawnir gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus. Ceir lefelau'r taliadau mewn dau Offeryn Statudol,

Rheoliadau Atwrneiaethau Arhosol, Atwrneiaethau Parhaus a'r Gwarcheidwad Cyhoeddus 2007 a Rheoliadau'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (Ffioedd etc) 2007.

Mae'r strwythur ffioedd sydd mewn grym ar gyfer 2015/16 wedi'i bennu ers ei newid ar 1 Hydref 2011 gan Reoliadau'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (Ffioedd etc) (Diwygio) 2011 a oedd yn diwygio ac yn diweddaru Rheoliadau'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (Ffioedd etc) 2007.

**Goruchwyliaeth gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus a ffioedd dirprwyaeth**

Mae'r rheoliadau'n disodli gwahanol ffioedd a oedd yn daladwy gan dderbynwyr a benodwyd gan y llys ac yn rhoi un ffi sefydlu yn eu lle, sy'n daladwy pan fydd dirprwyaeth newydd yn cael ei hasesu gyntaf ar gyfer goruchwyliaeth; ac un ffi gweinyddu flynyddol. Rhoddir achosion o dan un o bedwar math o oruchwyliaeth ac maent yn dod â ffioedd blynyddol i mewn yn ôl y lefel sydd wedi'i phennu. Mae'r rhan fwyaf o'r achosion yn dod o dan un categori goruchwyliaeth. Mae incwm yn cael ei gydnabod drwy ffioedd goruchwylio sydd wedi'u cyfrifo ar sail pro rata:

- os yw mwy nag un math o oruchwyliaeth wedi'i chymhwyso o fewn cyfnod o un flwyddyn; neu
- os yw'r oruchwyliaeth wedi bod ar waith am lai nag un flwyddyn; neu
- os bydd y person sydd heb alluedd neu'r dirprwy'n marw. Mae ffioedd yn daladwy hyd at ddyddiad y farwolaeth.

**Ffioedd cofrestru EPA ac LPA**

Mae incwm yn cael ei gydnabod pan wneir y cais. Mae'r ffi gofrestru'n daladwy gyda'r cais. Mae ffi gofrestru ar wahân yn daladwy am LPA eiddo a materion ariannol ac LPA iechyd a lles pan wneir pob cais.

## 1.5 Esemptio a pheidio â chodi ffioedd

Mae'r ddau offeryn yn darparu ar gyfer esemptio a pheidio â chodi ffioedd. Mae esemptiadau'n gymwys i bobl sy'n derbyn budd-daliadau cymwys sy'n dibynnu ar brawf modd nad ydynt wedi derbyn iawndal o fwy nag £16,000, sydd wedi'i ddiystyru i ddibenion cymhwysedd am y budd-daliadau hyn. Mae polisi OPG ar feini prawf yn gyson â'r polisïau a fabwysiadwyd gan asiantaethau llywodraeth eraill o ran diystyru dyfarndaliadau o'r fath. Mae'r offerynnau'n darparu hefyd ar gyfer hepgor neu leihau ffioedd os byddai eu talu, oherwydd amgylchiadau eithriadol yr achos, yn achosi caledi gormodol.

Mae OPG yn gyfrifol am awdurdodi esemptio rhag talu ffioedd ac am gymeradwyo ceisiadau am hepgor ffioedd ar sail amgylchiadau eithriadol.

Gellir gwneud cais am esemptio neu beidio â chodi ffioedd gyda'r ffurflen gais gyntaf neu ei gyflwyno o fewn chwe mis i'r cais. Mae incwm yn cael ei gydnabod ar ôl derbyn cais dilys.

Yn yr achosion hynny lle na wneir cais am esemptio neu beidio â chodi ffioedd gyda'r cais gwreiddiol am LPA, mae amod bod rhaid derbyn cais wedi'i lenwi am esemptio neu beidio â chodi ffioedd o fewn chwe mis ar ôl codi'r anfoneb.

Os talwyd ffi a bod cytundeb wedyn i esemptio neu beidio â chodi'r ffi, rhoddir ad-daliad.

Mae ffioedd sydd wedi'u hesemptio neu heb eu codi yn cael eu cydnabod yn ostyngiad mewn incwm ar ôl derbyn ffurflenni dilys o fewn y flwyddyn. Mae darpariaeth yn cael ei chydnabod ar sail asesiad manwl o'r graddau y caniatawyd esemptio a pheidio â chodi

ffioedd goruchwylio o fewn y flwyddyn ar ôl cydnabod yr incwm. Hwn yw'r swm y gellir rhag-weld ei dderbyn am esemptio a pheidio â chodi tâl yn y flwyddyn ddilynol (nodyn 9). Mae incwm wedi'i ddangos yn net o daliadau sydd wedi'u hesemptio a heb eu codi yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr, ac yn fanylach ar sail gros yn nodyn 2.

## 1.6 Buddion cyflogeion

### Croniad am wyliau cyflogeion

Gwneir croniad ar gyfer gwyliau cyflogeion sydd heb eu cymryd a gwyliau oriau hyblyg.

### Costau ymadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i OPG dalu'r gost ychwanegol am fuddion mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar, oni bai eu bod wedi ymddeol ar sail feddygol a gymeradwywyd. Darperir cyfanswm y gost yn llawn pan fydd y rhaglen ymadael cynnar wedi'i chyhoeddi a phan fydd yn rhwymo OPG.

### Pensiynau

Mae darpariaethau prif gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil (PCSPS), sydd wedi'i ddisgrifio yn yr adroddiad cydnabyddiaeth ariannol a staff, yn cynnwys cyflogeion presennol a blaenorol. Nid yw'r cynlluniau buddion diffiniedig yn cael eu hariannu. Mae'r asiantaeth yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa o wasanaethau cyflogeion, drwy dalu symiau i PCSPS sydd wedi'u cyfrifo ar sail gronnol. Mae atebolrwydd i dalu am fuddion yn y dyfodol yn cael ei godi ar PCSPS. Mae OPG yn ystyried y cynlluniau fel cynlluniau cyfraniadau diffiniedig gan nad oes digon o wybodaeth ar gael i'w hystyried fel cynlluniau buddion diffiniedig. Mae'r asiantaeth felly'n cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn ariannol.

## 1.7 Lesoedd

Mae lesoedd OPG yn cael eu hystyried yn lesoedd gweithredu a chodir y taliadau rhentu ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y les. Yn unol ag egwyddorion IAS 17 (Leases) a'r canllawiau atodol sydd wedi'u nodi yn SIC 15 (Operating lease incentives) mae OPG wedi gwasgaru gwerth y cyfnod di-rent ar gyfer meddiannu lle yn The Axis Building dros y cyfnod dechreuol o 10 mlynedd.

## 1.8 Taliadau nad ydynt yn arian parod

Mae taliadau nad ydynt yn arian parod wedi'u cynnwys yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr i adlewyrchu cost lawn gwasanaethau'r asiantaeth, yn unol â LIAALl a 'Managing Public Money'. Mae'r taliadau hyn yn cynnwys:

### Taliadau cynnal pencadlys y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Mae'r cyfrifiadau ym methodoleg y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar ailgodi taliadau'n cael eu cymhwyso'n gyson a thryloyw i ddosrannu gorbenion gan gynnwys adnoddau dynol a TGCh i holl adrannau ac asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar sail nad yw'n arian parod.

### Tâl yr archwilydd allanol

Y tâl sydd heb fod yn arian parod am yr archwiliad statudol o'r cyfrifon a gyflawnir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol)

## 1.9 Dyledion drwg

Mae dyledion drwg yn cael eu dileu ar ôl eu hadnabod. Gwneir darpariaeth ar gyfer dyledion amheus ar sail adolygiad penodol o'r achosion unigol, sy'n cael ei debydu o'r gweddill ar gyfer symiau masnach derbyniadwy a'i chyflwyno wedyn ar sail net.

## 1.10 Eiddo, peiriannau a chyfarpar

### Cydnabod

Mae eitemau eiddo, peiriannau a chyfarpar, gan gynnwys gwariant dilynol ar asedau presennol, yn cael eu cydnabod yn gyntaf ar eu cost os yw'n debygol y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r ased yn dod i ran OPG yn y dyfodol a bod modd mesur cost yr ased yn ddibynadwy. Mae'r holl gostau eraill am atgyweirio a chynnal a chadw'n cael eu codi ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn ystod y cyfnod ariannol pan ydynt yn cael eu hysgwyddo.

### Trothwy cyfalafu – asedau unigol

Trothwy cyfalafu OPG ar gyfer asedau unigol yw £10,000 (yn cynnwys TAW). Cafodd ei gynyddu o £1,000 yn y flwyddyn flaenorol, gan arwain at ostyngiad o £174,000 ar gyfer eiddo, peiriannau a chyfarpar erbyn 31 Mawrth 2016.

### Trothwy cyfalafu – grwpiau o asedau

- Os prynir asedau unigol yng nghyswllt un prosiect am gost sylweddol sydd yn unigol o dan y trothwy cyfalafu, byddant yn cael eu trin fel grŵp o asedau. Fel arfer mae grŵp o asedau:an integrated system of diverse equipment designed to deliver a specific solution, for example, an IT equipment refresh project;
- yn ddodrefn neu gyfarpar TG sydd wedi'u caffael am gost sylweddol ar un safle; neu
- yn rhaglenni ar gyfer adnewyddu cyfarpar TG a dodrefn, lle mae'r gwariant arfaethedig yn uwch na'r trothwy cyfalafu.

### Dull prisio

Mae asedau diriaethol sy'n cael eu cadw oherwydd potensial eu gwasanaeth yn cael eu cario yn ôl eu gwerth presennol yn eu defnydd presennol.

Maent wedi'u cynnwys ar eu cost wrth eu prynu ac yn cael eu hailddatgan ar bob dyddiad adrodd gan ddilyn mynegrifau priodol (monitor busnes MM22) a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### Ailbrisio

Os bydd gwerth cario'r ased yn cynyddu o ganlyniad i ailbrisio, bydd unrhyw warged o ailbrisio'n cael ei gredydu i'r datganiad o wariant net cynhwysfawr arall ac yn cael ei gronni'n syth yn ecwiti'r trethdalwyr o dan bennawd y gronfa ailbrisio. Un eithriad i hyn yw unrhyw enillion ar ôl ailbrisio sy'n gwrthdroi gostyngiad ar ôl ailbrisio ar yr un ased a oedd wedi'i gydnabod yn draul cyn hynny. Bydd enillion o'r fath yn cael eu credydu'n gyntaf yn y gost gweithredu net yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr i'r graddau y mae'r enillion yn gwrthdroi colled a oedd wedi'i chydnabod cyn hynny yn y gost gweithredu net yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr.

Bydd gostyngiad ar ôl ailbrisio'n cael ei godi ar y gronfa ailbrisio i'r graddau nad yw'n fwy na'r swm sydd wedi'i ddal yn y gronfa ailbrisio mewn perthynas â'r un ased. Bydd unrhyw ostyngiad gweddilliol yn cael ei gydnabod wedyn yn y gost gweithredu net yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr.

### Dibrisiant

Codir am ddibrisiant ar sail llinell syth ar gyfraddau sydd wedi'u cyfrifo fel eu bod yn dileu gwerth yr asedau, llai amcangyfrif o'r gwerth gweddilliol wedi'i rannu'n gyfartal dros eu hoes fuddiol amcangyfrifedig. Mae oes fuddiol asedau neu gategorïau asedau'n cael ei hadolygu bob blwyddyn a thrafodir unrhyw newidiadau â'r awdurdodau perthnasol

i sicrhau bod y goblygiadau o ran cyllidebu wedi'u hystyried yn briodol. Os cytunir ar newid yn oes yr ased, caiff yr ased ei ddibrisio ar sail llinell syth dros weddill yr oes a aseswyd ar ei gyfer. Bydd dibrisiant yn cychwyn yn y mis ar ôl caffael ased anghyfredol.

Os yw eitem o eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys dwy neu ragor o gydrannau pwysig, sydd ag oesau buddiol gwahanol iawn, yna bydd pob cydran yn cael ei thrin ar wahân i ddibenion dibrisio ac yn cael ei dibrisio dros ei hoes fuddiol unigol.

Mae oesau buddiol amcangyfrifedig yr asedau o fewn yr amrediadau canlynol:

- gwelliannau i lesddaliad – cyfnod y les sy'n weddill
- dodrefn a ffitiadau – 10 mlynedd
- peiriannau a chyfarpar – 5 i 7 mlynedd
- technoleg gwybodaeth – 3 i 7 mlynedd.

**Asedau sy'n cael eu hadeiladu**

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu'n cael eu prisio ar gost hanesyddol o fewn eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau anniriaethol ac nid ydynt yn cael eu dibrisio na'u hamorteiddio. Mae ased yn peidio â chael ei gategoreiddio'n ased sy'n cael ei adeiladu pan yw'n barod i'w ddefnyddio. Wedyn mae ei werth cario'n cael ei dynnu o asedau sy'n cael eu hadeiladu a'i drosglwyddo i'r priod gategori asedau. Codir am ddibrisiant neu amorteiddio ar yr ased wedyn yn unol â'r polisi cyfrifyddu sydd wedi'i ddatgan.

**Gwaredu asedau anghyfredol**

Mae enillion a cholledion ar ôl gwaredu asedau anghyfredol yn cael eu pennu drwy gymharu'r derbyniadau â'r swm cario ac yn cael eu cydnabod yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr. Pan werthir asedau sydd wedi'u hailbrisio, trosglwyddir y symiau sydd yn y gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol.

## 1.11 Asedau anniriaethol

Asedau anniriaethol yw meddalwedd a ddatblygwyd yn fewnol i'w ddefnyddio'n fewnol (gan gynnwys asedau o'r fath sy'n cael eu hadeiladu) a thrwyddedau meddalwedd a brynwyd.

Mae costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r broses o ddylunio a rhoi prawf ar gynhyrchion meddalwedd unigryw ac adnabyddadwy a reolir gan OPG yn cael eu cydnabod yn asedau anniriaethol os bodlonir y meini prawf canlynol:

- ei bod yn dechnegol bosibl cwblhau'r cynnyrch meddalwedd fel y bydd ar gael i'w ddefnyddio;
- bod OPG yn bwriadu cwblhau'r cynnyrch meddalwedd a'i ddefnyddio;
- y gellir defnyddio'r cynnyrch meddalwedd;
- y gellir dangos sut y bydd y cynnyrch meddalwedd yn creu potensial gwasanaeth tebygol yn y dyfodol;
- bod adnoddau technegol ac ariannol ac adnoddau eraill ar gael sy'n ddigonol i gwblhau'r gwaith o ddatblygu'r cynnyrch meddalwedd a'i ddefnyddio;
- y gellir mesur yn ddibynadwy y gwariant y gellir ei briodoli i'r cynnyrch meddalwedd wrth ei ddatblygu;

Mae gwariant arall ar ddatblygu nad yw'n bodloni'r meini prawf yn cael ei gydnabod yn draul wrth ei ysgwyddo. Bydd costau ymgynghorwyr allanol sy'n cael eu cynnwys mewn prosiectau'n cael eu cyfalafu os yw'n briodol. Ni fydd costau datblygu sydd wedi'u cydnabod yn draul cyn hynny'n cael eu cydnabod yn ased mewn cyfnod dilynol.

Mae trwyddedau meddalwedd a brynwyd yn cael eu cydnabod os yw'n debygol y bydd potensial gwasanaeth yn dod i ran OPG yn y dyfodol ac os gellir mesur cost y trwyddedau'n ddibynadwy. Bydd trwyddedau o'r fath yn cael eu mesur ar eu cost ar y dechrau.

Ar ôl eu cydnabod gyntaf, mae asedau anniriaethol yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon ar eu gwerth presennol yn eu defnydd presennol. Gan nad oes marchnad weithredol ar gyfer asedau anniriaethol OPG, mae'r gwerth presennol yn cael ei asesu fel cost cyflenwi llai unrhyw golledion oherwydd lleihad mewn gwerth (h.y. cost gyfnewid ddibrisiedig).

Mae asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros eu hoes fuddiol ddisgwyliedig. Mae oes fuddiol meddalwedd a ddatblygwyd yn fewnol yn amrywio rhwng dwy a saith mlynedd. Mae trwyddedau meddalwedd a brynwyd yn cael eu hamorteiddio dros gyfnod y drwydded.

## 1.12 Trothwyon cyfalafu ar gyfer asedau anniriaethol

Trothwy cyfalafu OPG ar gyfer prosiectau meddalwedd yw £10,000 (yn cynnwys TAW). Cafodd ei gynyddu o £1,000 yn y flwyddyn flaenorol, gan arwain at ostyngiad o £39,000 ar gyfer asedau anniriaethol erbyn 31 Mawrth 2016.

## 1.13 Lleihad mewn gwerth

Lleihad mewn gwerth yw lleihad parhaol yng ngwerth ased o ganlyniad i ddefnyddio buddion economaidd neu botensial gwasanaeth. Ar 31 Mawrth bob blwyddyn, bydd OPG yn asesu ei holl asedau anghyfredol am arwyddion o leihad mewn gwerth. Rhoddir prawf ar yr asedau dan sylw am leihad yn eu gwerth drwy gymharu gwerth cario'r asedau hynny â'r symiau y gellir eu hadennill amdanynt. Os bydd y swm y gellir ei adennill am yr ased yn llai na'i werth cario, bydd gwerth cario'r ased yn cael ei leihau i'r swm y gellir ei adennill amdano.

Y swm y gellir ei adennill am ased a gedwir am ei botensial gwasanaeth yw ei werth presennol ar ddefnydd presennol. I ddibenion y sector cyhoeddus, y diffiniad yn LIAALI o 'werth ar ddefnydd' ased nad yw'n cynhyrchu arian parod yw gwerth presennol y potensial gwasanaeth sy'n weddill yn yr ased, y gellir cymryd ei fod yn gyfwerth o leiaf â'r gost o amnewid y potensial gwasanaeth hwnnw.

Mae unrhyw golled oherwydd lleihad mewn gwerth yn cael ei chydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Os oedd ased y cafwyd lleihad yn ei werth wedi'i ailbrisio cyn hynny, bydd unrhyw weddill yn y gronfa ailbrisio (hyd at lefel y golled oherwydd lleihad mewn gwerth) yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Ar 31 Mawrth bob blwyddyn, mae OPG yn asesu a oes unrhyw arwydd bod colled oherwydd lleihad mewn gwerth a oedd wedi'i chydnabod mewn cyfnod blaenorol wedi peidio â bod neu wedi gostwng. Os oes unrhyw arwydd o'r fath, bydd y symiau y gellir eu hadennill am yr asedau dan sylw yn cael eu hailasesu. Wedyn bydd gwrthdroi'r golled oherwydd lleihad mewn gwerth yn cael ei gydnabod yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr os yw'r amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i bennu'r swm y gellir ei adennill am yr ased wedi newid ers y prawf diwethaf am leihad mewn gwerth. Yr unig swm a roddir am unrhyw wrthdroi yw cynnydd yng ngwerth cario'r asedau dan sylw at y gwerth cario a fyddai wedi'i gydnabod pe na byddai'r lleihad gwreiddiol mewn gwerth wedi digwydd (hynny yw, ar ôl ystyried dibrisiant arferol y byddid wedi codi amdano pe na byddai unrhyw leihad mewn gwerth wedi digwydd).

### 1.14 Treth ar werth (TAW)

Nid yw'r asiantaeth wedi cofrestru am TAW gyda Chyllid a Thollau EM ar ei phen ei hun ac mae'n dod o dan gofrestriad y Weinyddiaeth Cyfiawnder sydd yn hysbysu'r asiantaeth am unrhyw TAW ar fewnbwn y gellir ei adennill.

Codir am TAW na ellir ei hadennill ar y categori gwariant perthnasol neu mae'n cael ei chynnwys yn y gost prynu wedi'i chyfalafu am asedau sefydlog diriaethol. Lle codir TAW ar allbwn neu lle gellir adennill TAW ar fewnbwn, mae'r symiau'n cael eu datgan yn net o TAW.

### 1.15 Darpariaethau

Mae'r asiantaeth yn darparu ar gyfer ymrwymiadau cyfreithiol neu ddeongliadol, sy'n ansicr o ran eu hamser neu eu swm ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymiad.

### 1.16 Rhwymedigaethau digwyddiadol

Adroddir ar segmentau mewn cyfrifon rheoli misol ar sail cyfarwyddiaethau, ond nid mewn cyfrifon ariannol blynyddol. Gan mai un gweithgaredd gweithredu ac un segment gweithredu sydd gan OPG, ni fyddai dadansoddi ar sail cyfarwyddiaethau'n cynnig dadansoddiad ystyrlon o'r math sydd wedi'i fwriadu yn IFRS 8.

### 1.17 Rhwymedigaethau digwyddiadol

Yn unol ag IAS 37, mae'r asiantaeth yn datgelu ar ffurf rhwymedigaethau digwyddiadol unrhyw ymrwymiadau dichonol a all godi yn y dyfodol o ganlyniad i ddigwyddiadau ymrwymo yn y gorffennol, lle mae bodolaeth ymrwymiadau o'r fath yn parhau'n ansicr wrth ddisgwyl y canlyniad i ddigwyddiadau yn y dyfodol sydd y tu hwnt i reolaeth yr asiantaeth, oni bai ei bod yn cael ei hystyried yn annhebygol iawn y byddant yn codi. Mae gwarantau, indemniadau ac ymgymeriadau nad ydynt yn gontractau gwarant ariannol o dan IAS 39 yn cael eu trin fel rhwymedigaethau digwyddiadol.

Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol sy'n cael eu datgelu'n unol ag IAS 37, mae'r asiantaeth hefyd yn datgelu i ddibenion adroddiadau ac atebolrwydd i'r Senedd rwymedigaethau digwyddiadol penodol lle mae'n annhebygol iawn y bydd buddion economaidd yn cael eu trosglwyddo.

Lle mae'r gwerth amser sydd mewn arian yn berthnasol, mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn cael eu datgan ar ffurf symiau wedi'u disgowntio. Nid yw rhwymedigaethau digwyddiadol y mae angen adrodd amdanynt i'r Senedd yn cael eu disgowntio.

## 1.18 Setlo gweddillau o fewn y grŵp drwy ddefnyddio'r gronfa gyffredinol

Mae dau brif fath o drafodiad y mae OPG yn eu cyflawni gyda'i rhiant-Adran, y Weinyddiaeth Cyfiawnder

a. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn setlo rhai mathau o wariant y mae OPG wedi'i ysgwyddo ar ran yr asiantaeth (gweler nodiadau 4 a 5). Mae hyn yn rhoi gweddill o fewn y grŵp o blaid y Weinyddiaeth Cyfiawnder (nodyn 11).

b. Gan fod OPG yn creu mewnlifau net o arian parod, mae'r rhain yn cael eu hildio bob hyn a hyn i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Wrth ildio'r arian parod hwn, crëir gweddillau rhwng cwmnïau o blaid OPG (nodyn 9).

Bob blwyddyn, bydd OPG a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedyn yn ystyried y sefyllfa rhwng cwmnïau ac yn cytuno a fydd yn briodol gwneud addasiad parhaol i sefyllfa ariannol OPG. Bydd unrhyw addasiadau o'r fath yn drafodion ariannu â'r parti sy'n rheoli OPG, ni fyddant yn arwain at unrhyw gofnodion yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr ac maent yn cael eu cydnabod yn uniongyrchol yn y gronfa gyffredinol drwy'r datganiad o newid yn ecwiti'r trethdalwyr (SoCiTE). Gall yr addasiadau hyn fod o ddau fath.

- Os yw'r gweddill net o fewn y grŵp sy'n ddyledus oddi wrth y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn fwy na swm y taliadau y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn disgwyl eu setlo ar ran OPG yn y flwyddyn sydd i ddod, bydd OPG yn cytuno i ddiddymu'r elfen 'dros ben' yn y gweddill, gan arwain at leihad parhaol yn ecwiti OPG. Mae'r addasiadau hyn yn cael eu credydu'n uniongyrchol i'r datganiad o newid yn ecwiti'r trethdalwyr a byddant hefyd yn eitem ar gyfer cysoni yn y datganiad o lifau arian, gan nad yw'r gostyngiad yn y symiau sy'n dderbyniadwy o fewn y grŵp yn arwain at newid cyfatebol mewn arian parod. Yn ei hanfod, mae'r swm derbyniadwy o fewn y grŵp sy'n weddill ar ôl cwblhau'r trafodiad hwn yn rhagdaliad am wasanaethau sydd i'w derbyn oddi wrth y pencadlys yn y flwyddyn ddilynol.
- Os oes angen, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd yn gallu darparu cyllid nad yw'n arian parod, h.y. cynnydd parhaol yn ecwiti OPG, drwy gytuno i ddiddymu gweddillau rhwng cwmnïau o blaid y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae trafodion o'r fath yn cael eu galw'n 'gyllid arall y Weinyddiaeth Cyfiawnder nad yw'n arian parod' yn y datganiad o lifau arian a'r datganiad o newid yn ecwiti'r trethdalwyr.

| 2. Incwm | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| **Incwm gweithredu** | **£000** | **£000** |
| **Incwm OPG o ffioedd** | | |
| Atwrneiaethau Arhosol | (58,341) | (43,340) |
| Atwrneiaethau Parhaus | (1,241) | (1,657) |
| Goruchwylio | (11,487) | (11,054) |
| Penodi Dirprwy | (1,550) | (1,492) |
| | **(72,619)** | **(57,543)** |
| **Esemptio a pheidio â chodi tâl** | | |
| Atwrneiaethau Arhosol | 4,695 | 3,564 |
| Atwrneiaethau Parhaus | 143 | 87 |
| Goruchwylio | 1,640 | 2,169 |
| Penodi Dirprwy | 284 | 312 |
| | **6,762** | **6,132** |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | **(65,857)** | **(51,411)** |

| 3. Costau staff | 2015/16 | | | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | | | £000 |
| **Costau staff** | **Cyfanswm** | **Staff a gyflogir yn barhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** |
| Taliadau a chyflogau | 27,191 | 22,943 | 4,248 | 22,305 |
| Cyfraniadau yswiriant gwladol sy'n seiliedig ar enillion | 1,320 | 1,320 | - | 987 |
| Costau pensiwn eraill | 3,988 | 3,988 | - | 2,484 |
| **Cyfanswm y costau net** | **32,499** | **28,251** | **4,248** | **25,776** |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "alpha" – yn gynlluniau buddion diffiniedig nad ydynt yn cael eu hariannu ar gyfer nifer o gyflogwyr, ond nid yw OPG yn gallu pennu ei chyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiwyd y cynllun gan actiwari'r cynllun ar 31 Mawrth 2012. Mae manylion ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet o dan 'Civil Superannuation'.

Ar gyfer 2015/16, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £3,916,000 yn daladwy i PGPGS (2014/15 £2,484,000) ar un o bedair cyfradd rhwng 20.0% a 24.5% o'r enillion pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr fel arfer bob pedair blynedd ar ôl cynnal prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau cyfraniadau er mwyn talu cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2015/16 a fydd yn cael eu talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i'r pensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn **partneriaeth**, pensiwn cyfranddeiliaid â chyfraniad gan gyflogwr. Talwyd gwerth £72,000 o gyfraniadau cyflogwyr i un neu ragor o'r panel o dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran, ac yn amrywio o 3% i 12.5% o'r enillion pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 ac o 8% i 14.75% o'r enillion pensiynadwy ar ôl 1 Hydref 2015. Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau gweithwyr hyd at 3% o'r enillion pensiynadwy.

| 4. Costau gweithredu eraill | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Colledion arian parod a thaliadau cydnabyddiaeth | 11 | 18 |
| Defnyddiau traul | 287 | 220 |
| Cynnal a chadw | *1,039 | *776 |
| | | |
| Costau rhedeg cyfrifiaduron | 3,830 | 2,345 |
| Costau teithio a chynhaliaeth | 420 | 510 |
| Costau rhedeg eraill | *3,360 | 1,389 |
| Postio | 2,508 | 2,051 |
| Ardrethi | *490 | *414 |
| | | |
| Adeiladau | *1,147 | *1,085 |
| | | |
| Cyfleustodau | *49 | *50 |
| Gwasanaethau ymwelwyr (asesu anghenion cleientiaid) | 1,628 | 1,340 |
| **Cyfanswm costau gweithredu eraill** | ***14,769** | **10,198** |

* O'r symiau uchod, setlwyd £1,204,000 (2014/15 £1,184,000) gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac nid ydynt yn cael effaith o ran arian parod ar OPG. Mae seren wrth y categorïau y mae hyn yn effeithio arnynt.

| 5. Taliadau nad ydynt yn arian parod | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Taliadau cynnal pencadlys y Weinyddiaeth Cyfiawnder | 3,392 | 2,505 |
| Dibrisiant – Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 325 | 258 |
| Amorteiddio – Asedau anniriaethol | 1,101 | 772 |
| Tâl i'r archwilydd allanol | 52 | 52 |
| Colled ar waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 290 | 32 |
| Ailbrisio asedau ar i lawr yn is na'r gwerth dibrisiedig | 603 | - |
| Cynnydd mewn darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus | 217 | - |
| **Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau:** | | |
| Wedi'i ddarparu yn y flwyddyn | - | 203 |
| Darpariaeth a ddaeth yn ôl | - | - |
| | **5,980** | **3,822** |
| | | |
| Cynnydd yn y lleihad mewn gwerth mewn symiau masnach derbyniadwy | - | (42) |
| Dyledion drwg wedi'u dileu | 73 | 539 |
| | **6,053** | **4,319** |

## 6. Ffioedd a thaliadau

Mae'n ofynnol bod yr asiantaeth, yn unol â 'Managing Public Money', yn datgelu canlyniadau ar gyfer meysydd y gweithgareddau yr ymgymerwyd â nhw drwy gydol y flwyddyn ariannol, lle codwyd ffioedd a thaliadau.

Cyflawnwyd ac aethpwyd ymhellach na'r amcan ariannol y cytunwyd arno gyda Thrysorlys EM, y dylai OPG adennill yr holl gostau (heb gynnwys ffioedd sydd wedi'u hesemptio a heb eu codi), gan adennill 136% yn 2015/16, gostyngiad pellach o'r 143% a adenillwyd yn 2014/15.

Darperir cymhorthdal fel y bwriadwyd i sicrhau na fydd cleientiaid yn methu â chael gwasanaethau am nad ydynt yn gallu fforddio'r ffioedd sy'n ofynnol.

| | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Incwm gweithredu | (65,857) | (51,411) |
| Ffioedd a oedd heb eu codi | (6,762) | (6,132) |
| **Cyfanswm incwm** | **(72,619)** | **(57,543)** |
| **Cyfanswm gwariant** | **53,321** | **40,293** |
| **Diffyg/(gwarged)** | **(19,298)** | **(17,250)** |
| **Costau a adenillwyd (%)** | **136%** | **143%** |

Cyflawnwyd ac aethpwyd ymhellach na'r amcan ariannol y cytunwyd arno gyda Thrysorlys EM, y dylai OPG adennill yr holl gostau (heb gynnwys ffioedd sydd wedi'u hesemptio a heb eu codi), gan adennill 136% yn 2015/16, gostyngiad pellach o'r 143% a adenillwyd yn 2014/15. Fel y nodwyd y llynedd, roedd hyn wedi'i ragweld gan nad oedd modd newid ein ffioedd yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi llwyddo i fuddsoddi swm sylweddol o adnoddau a gwella ansawdd ein gwasanaethau.

Mae trafodaethau'n cael eu cynnal rhwng y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Thrysorlys EM er mwyn adolygu'r amcan ariannol a diwygio'n strwythur ffioedd os oes angen cyn gynted ag y bo modd.

## 7. Dadansoddi ar sail gweinyddu a rhaglenni

Mae holl incwm a gwariant OPG wedi'u categoreiddio'n incwm a gwariant rhaglenni, ar sail asesiad o'r gwaith a gyflawnwyd gan OPG, sef gwasanaethau rheng flaen yn bennaf; cytunwyd â Thrysorlys EM ar y dosbarthiad hwn.

**8. Eiddo, peiriannau a chyfarpar**

| | Gwelliannau lesddaliad | Dodrefn a ffitiadau | Peiriannau a chyfarpar | Technoleg gwybodaeth | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | 891 | 203 | 676 | 1,103 | - | **2,873** |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - | 2,224 | **2,224** |
| Ailgategoreiddio** | - | 475 | 253 | 574 | 386 | **1,688** |
| Gwarediadau | (9) | (205) | (86) | (71) | - | **(371)** |
| Ailbrisio | (385) | 2 | 3 | 25 | - | **(355)** |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **497** | **475** | **846** | **1,631** | ***2,610** | **6,059** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | (335) | (72) | (622) | (779) | - | **(1,808)** |
| Darparwyd o fewn y flwyddyn | (29) | (27) | (76) | (193) | - | **(325)** |
| Gwarediadau | 5 | 93 | 74 | 58 | - | **230** |
| Ailbrisio | 359 | (14) | (194) | (89) | - | **62** |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **0** | **(20)** | **(818)** | **(1,003)** | **-** | **(1,841)** |
| **Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2016** | **497** | **455** | **28** | **628** | **2,610** | **4,218** |
| **Llyfrwerth net ar 1 Ebrill 2015** | **556** | **131** | **54** | **324** | **-** | **1,065** |

Mae'r holl eiddo, peiriannau a chyfarpar sydd wedi'u datgelu uchod yn eiddo'n llwyr i OPG.

* Mae'r gweddill terfynol o £2,610k yn cynnwys Technoleg Gwybodaeth (£1,121k), gwelliannau lesddaliad (£934k) a dodrefn (£555k) sy'n cael eu hadeiladu.

** Gweler y troednodyn i nodyn 8a.

| | Gwelliannau lesddaliad £000 | Dodrefn a ffitiadau £000 | Peiriannau a chyfarpar £000 | Technoleg gwybodaeth £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 824 | 240 | 687 | 1,095 | **2,846** |
| Ailgatgoreiddio | - | 17 | - | - | **17** |
| Gwarediadau | - | (54) | (11) | - | **(65)** |
| Ailbrisio | 67 | - | - | 8 | **75** |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **891** | **203** | **676** | **1,103** | **2,873** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | (228) | (75) | (602) | (649) | **(1,554)** |
| Darparwyd o fewn y flwyddyn | (83) | (23) | (25) | (127) | **(258)** |
| Gwarediadau | - | 26 | 5 | - | **31** |
| Ailbrisio | (24) | - | - | (3) | **(27)** |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **(335)** | **(72)** | **(622)** | **(779)** | **(1,808)** |
| **Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2015** | **556** | **131** | **54** | **324** | **1,065** |
| **Llyfrwerth net ar 1 Ebrill 2014** | **596** | **165** | **85** | **446** | **1,292** |

Mae'r holl eiddo, peiriannau a chyfarpar sydd wedi'u datgelu uchod yn eiddo'n llwyr i OPG.

## 8a. Asedau anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd | Meddalwedd a gynhyrchwyd yn fewnol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | 414 | 7,082 | *7,186 | **14,682** |
| Ychwanegiadau | - | - | 1,205 | **1,205** |
| Ailgategoreiddio | - | 5,282 | (6,970) | **(1,688)** |
| Gwarediadau | (281) | (799) | (147) | **(1,227)** |
| Ailbrisio | 2 | 120 | (575) | **(453)** |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **135** | **11,685** | ****699** | **12,519** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | (384) | (6,316) | - | **(6,700)** |
| Darparwyd o fewn y flwyddyn | (21) | (1,080) | - | **(1,101)** |
| Gwarediadau | 279 | 799 | - | **1,078** |
| Ailbrisio | (4) | - | - | **(4)** |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **(130)** | **(6,597)** | **-** | **(6,727)** |
| **Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2016** | **5** | **5,088** | **699** | **5,792** |
| **Llyfrwerth net ar 1 Ebrill 2015** | **30** | **766** | **7,186** | **7,982** |

Mae'r holl asedau anniriaethol sydd wedi'u datgelu uchod yn eiddo'n llwyr i OPG.

* O'r gweddill agoriadol o £7,186k, mae £5,498k yn gysylltiedig ag asedau anniriaethol ac mae £1,688k yn gysylltiedig ag eiddo, peiriannau a chyfarpar.

Mae'r ailgategoreiddio o asedau anniriaethol i eiddo, peiriannau a chyfarpar oherwydd bod y gweddillau agoriadol yn cynnwys prosiectau TG nad ydynt yn feddalwedd a gynhyrchwyd yn gyfan gwbl fewnol ond sy'n cael eu diffinio fel caledwedd e.e. sganwyr cipio dogfennau a data.

Mae newid system gyfrifyddu, ag effaith blwyddyn lawn yn 2016/17, yn golygu bod modd cofnodi cod prosiect fel rhan o'r dosbarthiad cyfrifyddu; mae hyn yn gwella'r drefn adrodd er mwyn osgoi ailddigwydd.

** Mae'r holl brosiectau sydd yn y gweddill terfynol o £699k yn rhai a fydd yn cael eu dosbarthu fel meddalwedd a gynhyrchwyd yn fewnol pan fydd y datblygiad wedi'i gwblhau.

| Asedau anniriaethol | Trwyddedau meddalwedd | Meddalwedd a gynhyrchwyd yn fewnol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 1,003 | 6,675 | 3,300 | **10,978** |
| Ychwanegiadau | - | - | 4,361 | **4,361** |
| Ailgategoreiddio | - | 429 | (475) | **(46)** |
| Gwarediadau | (589) | - | - | **(589)** |
| Ailbrisio | - | (22) | - | **(22)** |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **414** | **7,082** | **7,186** | **14,682** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | (922) | (5,610) | - | **(6,532)** |
| Darparwyd o fewn y flwyddyn | (51) | (721) | - | **(772)** |
| Gwarediadau | 589 | - | - | **589** |
| Ailbrisio | - | 15 | - | **15** |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **(384)** | **(6,316)** | **-** | **(6,700)** |
| **Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2015** | **30** | **766** | **7,186** | **7,982** |
| **Llyfrwerth net ar 1 Ebrill 2014** | **81** | **1,065** | **3,300** | **4,446** |

Mae'r holl asedau anniriaethol sydd wedi'u datgelu uchod yn eiddo'n llwyr i OPG. Roedd gweddill yr asedau sy'n cael eu hadeiladu, £7.2m, wedi'i ffurfio'n gyfan gwbl o wariant yn gysylltiedig â newid i ddigidol.

| 9. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn** | **£000** | **£000** |
| **Gweddillau gyda chyrff llywodraeth ganolog eraill** | | |
| Swm sy'n ddyledus oddi wrth y Weinyddiaeth Cyfiawnder | 35,015 | 25,099 |
| TAW y gellir ei hadennill | 279 | 83 |
| | **35,294** | **25,182** |
| **Gweddillau gyda chyrff y tu allan i lywodraeth** | | |
| Rhagdaliadau | 218 | 548 |
| Symiau staff derbyniadwy | 40 | 48 |
| Symiau masnach derbyniadwy | 9,809 | 9,341 |
| Incwm a gronnwyd | 739 | 300 |
| | **10,806** | **10,237** |
| **Cyfanswm y symiau derbyniadwy** | **46,100** | **35,419** |

Mae OPG yn ildio arian parod sy'n cael ei ddefnyddio i leihau'r gweddill rhwng cwmnïau a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r swm sy'n ddyledus uchod yw'r arian y mae disgwyl iddo gael ei ddefnyddio o fewn 12 mis ar wariant OPG sy'n cael ei setlo gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (gweler nodyn 1.18).

Mae'r symiau masnach derbyniadwy wedi'u dangos yn net o ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus o £423,000 (2014/15: £206,000) a darpariaeth ar gyfer peidio â chodi ffioedd o £602,000 (2014/15: £634,000).

| 10. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Gweddill ar 1 Ebrill 2015 | 1,356 | 2,911 |
| Mewnlif/(all-lif) arian parod net | 4,523 | (1,555) |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2016** | **5,879** | **1,356** |
| **Mae'r gweddillau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu dal yn:** | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | **5,879** | **1,356** |

| 11. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn** | **£000** | **£000** |
| **Swm sy'n ddyledus i gyrff llywodraeth ganolog eraill** | | |
| Swm sy'n ddyledus i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | 1,918 | 795 |
| | **1,918** | **795** |
| **Gweddillau gyda chyrff sydd y tu allan i lywodraeth** | | |
| Croniadau | 5,840 | 2,204 |
| Symiau masnach taladwy | 255 | 145 |
| | **6,095** | **2,349** |
| **Cyfanswm y symiau taladwy** | **8,013** | **3,144** |

| 12. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | Ymddeol cynnar £000 | Arall £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Gweddill ar 1 Ebrill 2015** | **157** | **192** | **349** |
| Darparwyd o fewn y cyfnod | - | - | **-** |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd o fewn y cyfnod | - | - | **-** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2016** | **157** | **192** | **349** |
| **Dadansoddiad o amseriadau disgwyliedig y llif arian** | | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 38 | 192 | **230** |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 119 | - | **119** |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - | **-** |
| | **157** | **192** | **349** |

## Costau ymadael yn gynnar

Mae'r asiantaeth yn talu am gostau ychwanegol buddion sydd ar ben buddion arferol PGPGS ar gyfer cyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar drwy dalu'r symiau angenrheidiol yn flynyddol i PGPGS dros y cyfnod rhwng yr ymadawiad cynnar a'r dyddiad ymddeol arferol. Mae'r asiantaeth yn darparu ar gyfer hyn yn llawn pan fydd y rhaglen ymddeol cynnar yn dod yn rhwymol ar yr asiantaeth drwy sefydlu darpariaeth ar gyfer taliadau amcangyfrifedig.

## 13. Ymrwymiadau o dan lesoedd gweithredu

Mae cyfanswm y taliadau lesio lleiaf yn y dyfodol o dan lesoedd gweithredu yn y cyfnod pan na ellir eu dileu wedi'i ddangos yn y tabl isod, wedi'i ddadansoddi yn ôl y cyfnod y mae'r taliadau'n dod yn ddyledus.

| Dadansoddiad o amseriadau disgwyliedig y llif arian | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|
| | Tir ac adeiladau | Tir ac adeiladau |
| | £000 | £000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 1,173 | 499 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 4,331 | 2,191 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 20 | 1,132 |
| **Cyfanswm** | **5,524** | **3,822** |

## 14. Trafodion partïon cysylltiedig

Mae'r asiantaeth yn asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cael ei hystyried yn barti cysylltiedig. Yn ystod y cyfnod dan sylw, mae'r asiantaeth wedi cael gwahanol drafodion perthnasol â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Yn benodol mae costau staff yr asiantaeth (a chyfrifyddu ar gyfer rhagdalu ac adennill cyflog) yn cael eu rheoli gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Yn ogystal â hyn, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r asiantaeth. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn rheoli'r trefniadau lesio a'r costau ar gyfer adeiladau sy'n gysylltiedig â meddiannu swyddfeydd gan OPG.

Cyfrifiadau o dan fethodoleg y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer ailgodi taliadau yw'r sail ddogfennol sy'n cael ei chymhwyso'n dryloyw a chyson i ddosrannu gorbenion gan gynnwys adnoddau dynol a TGCh i holl adrannau ac asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar sail dybiannol.

Roedd yr asiantaeth hefyd wedi cael trafodion ag adrannau ac endidau llywodraeth eraill.

Nid yw'r un o aelodau bwrdd yr asiantaeth, ei phrif staff rheoli na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â'r asiantaeth yn ystod y flwyddyn ariannol

## 15. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Mae digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yn cael eu hystyried hyd at ac yn cynnwys y dyddiad y rhoddir awdurdod i gyhoeddi'r cyfrifon. Y dehongliad o hyn yw dyddiad tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Roedd canlyniad y refferendwm a gynhaliwyd ar 23 Mehefin o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae hwn yn ddigwyddiad nad yw'n addasu. Ni ellir gwneud amcangyfrif rhesymol o effaith resymol y digwyddiad hwn..

## 16. Offerynnau ariannol

Gan fod anghenion OPG am arian parod yn cael eu bodloni drwy'r broses amcangyfrif, mae offerynnau ariannol yn chwarae llai o ran mewn creu a rheoli risg nag a fyddai'n digwydd mewn corff nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol ag anghenion disgwyliedig yr asiantaeth am brynu a defnyddio ac felly prin yw'r risg y mae'r asiantaeth yn agored iddi o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad. Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau ariannol wedi'u datgan ar eu cost amorteiddiedi.

# Atodiadau

## Cofnod ariannol pum mlynedd

| | 2011/12 £000 | 2012/13 £000 | 2013/14 £000 | 2014/15 £000 | 2015/16 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm gweithredu** | | | | | |
| Atwrneiaethau Arhosol | 20,817 | 27,094 | 31,580 | 39,776 | 53,646 |
| Atwrneiaethau Parhaus | 2,183 | 2,048 | 1,791 | 1,570 | 1,098 |
| Goruchwylio* | 7,192 | 8,061 | 9,255 | 10,065 | 11,113 |
| Arall | - | - | - | - | - |
| | **30,192** | **37,203** | **42,626** | **51,411** | **65,857** |
| **Ffioedd a dalwyd** | | | | | |
| Atwrneiaethau Arhosol | 3,908 | 3,330 | 3,453 | 3,564 | 4,695 |
| Atwrneiaethau Parhaus | 186 | 174 | 123 | 87 | 143 |
| Goruchwylio* | 2,658 | 3,510 | 2,676 | 2,481 | 1,924 |
| Arall | - | - | - | - | - |
| | **6,752** | **7,014** | **6,252** | **6,132** | **6,762** |
| Cyfanswm incwm | 36,944 | 44,217 | 48,878 | 57,543 | 72,619 |
| Cyfanswm gwariant | 28,989 | 27,918 | 31,895 | 40,293 | 53,321 |
| (Diffyg)/gwarged | 7,955 | 16,299 | 16,983 | 17,250 | 19,298 |
| Costau a adenillwyd | 128% | 158% | 153% | 143% | 136% |

* yn cynnwys Penodi Dirprwy

| Niferoedd y ffioedd | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd LPA | 178,790 | 241,214 | 294,946 | 395,309 | 475,037 |
| Ffioedd EPA | 18,912 | 17,968 | 16,034 | 15,037 | 11,482 |
| Ffioedd copi swyddfa | 1,408 | 4,196 | 1,416 | 1,819 | 1,606 |
| Ffioedd Penodi Dirprwy | 12,744 | 11,801 | 14,017 | 14,938 | 15,432 |
| Ffioedd goruchwylio cyffredinol | 41,720 | 43,176 | 43,695 | 42,466 | 43,873 |
| Ffioedd goruchwylio lleiaf | 10,804 | 13,751 | 16,929 | 20,915 | 21,636 |

| Niferoedd y ffioedd a dalwyd | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd LPA | 32,086 | 36,217 | 39,281 | 43,949 | 58,706 |
| Ffioedd EPA | 1,608 | 1,923 | 1,298 | 1,005 | 829 |
| Ffioedd chwilio | 36 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (dim ffi yn daladwy ar ôl 1 Hydref 2011) | 3,931 | 3,263 | 3,682 | 3,403 | 2,809 |
| Ffioedd Penodi Dirprwy | 20,225 | 16,090 | 17,814 | 18,703 | 13,452 |
| Ffioedd goruchwylio cyffredinol | 19 | 627 | 673 | 750 | 457 |
| Ffioedd goruchwylio lleiaf | | | | | |

| Dulliau talu – niferoedd | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|
| Siec | 178,454 | 168,496 | 237,339 | 308,245 | 320,028 |
| Cerdyn Credyd | 5,211 | 11,755 | 17,726 | 49,971 | 107,404 |
| Debyd Uniongyrchol | 10,447 | 11,402 | 9,528 | 8,559 | 12,282 |
| **Cyfanswm** | **194,112** | **191,653** | **264,593** | **366,775** | **439,714** |

ISBN 978-1-4741-3521-4

9 781474 135214